Sylwebaeth yr Academi Addysg Uwch ar

Strategaethau Dysgu ac Addysgu Sefydliadol Cymru 2004–05

The Higher Education Academy

Comisiynwyd gan:

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru

hefcw

Higher Education Funding Council for Wales

Cyhoeddwyd gan:
The Higher Education Academy
Innovation Way
York Science Park
Heslington
York YO10 5BR
United Kingdom

Ffôn: +44 (0)1904 717500
Ffacs: +44 (0)1904 717505
E-bost: enquiries@heacademy.ac.uk
www.heacademy.ac.uk

© Yr Academi Addysg Uwch
Hydref 2005

Cedwir pob hawl. Ac eithrio unrhyw fasnachu teg at ddibenion ymchwil neu astudiaeth breifat, beirniadaeth neu adolygiad, ni ellir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei chadw mewn system adalw, neu ei throsglwyddo, ar unrhyw ffurf arall neu drwy unrhyw fodd arall, graffig, electronig, mecanyddol, llungopïo, recordio, tapio neu fel arall, heb ganiatâd ysgrifenedig oddi wrth y cyhoeddwyr ymlaen llaw.

I wneud cais am gopïau mewn print bras neu ar fformat gwahanol, cysylltwch â'r Academi Addysg Uwch.

Crynodeb

Paratowyd yr adroddiad hwn gan yr Academi Addysg Uwch mewn ymateb i wahoddiad gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i roi dadansoddiad a sylwebaeth ar strategaethau dysgu ac addysgu sefydliadol Cymru 2004-05. Gwnaed y dadansoddiad fel ymarfer datblygu i nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg mewn datblygiadau dysgu ac addysgu i hysbysu sefydliadau, y Cyngor Cyllido a'r Academi Addysg Uwch. Mae'r adroddiad yn amlygu enghreifftiau o arferion newydd ac effeithiol sydd mewn strategaethau dysgu ac addysgu. Mae hefyd yn cynnig enghreifftiau o adnoddau gwybodaeth a ffurfiau eraill ar gymorth a allai fod o ddiddordeb i sefydliadau, sydd wedi cael eu cynhyrchu gan yr Academi a'i Chanolfannau Pwnc a ffynonellau eraill y tu allan i'r Academi.

Gobeithiwn y bydd yr adroddiad o ddiddordeb ac o werth i staff sefydliadol sydd â rôl yng nghynllunio strategol addysgu a dysgu a/neu sy'n goruchwylio neu'n cefnogi gweithredu strategaethau dysgu ac addysgu. Mae'r Academi yn croesawu adborth ynghylch a yw'r math hwn o ddadansoddiad o strategaethau dysgu ac addysgu sefydliadol yn ddefnyddiol ac o fudd i'r rheiny sydd â chyfrifoldebau yn y maes hwn.

Mae'r sylwebaeth a'r dadansoddiad wedi'u fframio o amgylch deuddeg thema:

1. Creu'r strategaeth
2. Datganoli strategaethau i adrannau ac ysgolion
3. Cysylltu ac alinio strategaethau sefydliadol
4. Cwricwlwm ac asesu
5. Cyflogadwyedd
6. Cyfrwng Cymraeg
7. e-Ddysgu
8. Cydraddoldeb ac amrywiaeth a chymorth i fyfyrwyr
9. Datblygiad staff a phroffesiynol gan gynnwys gwella addysgu drwy ymchwil ac ysgoloriaethau
10. Cydnabyddiaeth a gwobrwyo
11. Lledaenu ac ymgorffori arfer effeithiol
12. Monitro a gwerthuso

Mae'r adroddiad yn cloi gyda rhai myfyrdodau cyffredinol a nodi themâu allweddol i'w datblygu dros dair blynedd i ddechrau.

Gyda chytundeb sefydliadau, hoffai'r Academi Addysg Uwch ddefnyddio'r themâu hyn yn fan cychwyn ar gyfer sgyrsiau datblygiadol â sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Ein bwriad yw ymweld â phob sefydliad yn nhymor yr Hydref i ddeall y ffordd orau i'r Academi gefnogi gweithredu strategaethau dysgu ac addysgu a chasglu gwybodaeth fanylach a safbwyntiau am arfer effeithiol ac arloesol.

Cefndir

Comisiynwyd y sylwebaeth hon gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), at y dibenion canlynol

- cynnig trosolwg o strategaethau dysgu ac addysgu sefydliadol Cymru ar sail cyfres o gwestiynau gosodedig
- cynnig adborth penodol i sefydliadau ar bob un o'r 12 strategaeth dysgu ac addysgu sefydliadol gyda throsolwg generig
- nodi arferion newydd ac effeithiol ar draws sefydliadau addysg uwch Cymru y gellid eu defnyddio yn sail i gynhadledd welliant â thema yng Nghymru yn yr Hydref
- amlygu enghreifftiau o arferion a gydnabyddir yn rhai effeithiol a ffynonellau gwybodaeth o fannau eraill yn y DU

- hysbysu'r Academi Addysg Uwch am y strategaethau y mae sefydliadau Cymru yn eu defnyddio i wella ansawdd addysgu a dysgu a phrofiadau myfyrwyr o addysg uwch, a llunio cwestiynau ar gyfer trafodaethau datblygiadol â sefydliadau unigol.

Methodoleg

Datblygwyd offeryn dadansoddol ar sail set o gwestiynau a ddarparwyd gan CCAUC. Tîm bach o staff uwch a fu'n ymgymryd â'r dadansoddiad. Nodwyd nifer o themâu yn y dadansoddiad sy'n sylfaen i'r sylwebaeth hon fel ffordd o amlygu nodweddion allweddol ac awgrymu ffyrdd o wella meddwl strategol ymhellach. Nid yw'r Academi mewn sefyllfa i roi sylwadau ar lwyddiant strategaethau sefydliadol neu roi unrhyw fath o farn ar eu priodoldeb. Rydym yn ystyried y ddogfen hon yn goladiad o arsylwadau ansoddol a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg, ac yn gam cyntaf i'r Academi ddatblygu trosolwg strategol o ddatblygiadau addysgu a dysgu mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru er mwyn gallu cefnogi sefydliadau'n fwy effeithiol.

1. Creu'r strategaeth

Mae sefydliadau ledled Cymru wedi treulio cryn dipyn o amser yn datblygu'u Strategaethau Dysgu ac Addysgu. Dangosant ystod anferth o weithgareddau arloesol cyfredol ac arfaethedig mewn dysgu ac addysgu. Datblygwyd y strategaethau mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Lluniwyd rhai strategaethau yn dilyn adolygiad ac asesiad o'r strategaeth flaenorol, neu'n dilyn ymgynghoriadau eang eu hystod dros nifer o flynyddoedd, tra datblygwyd eraill drwy brosesau cynllunio strategol ffurfiol y brifysgol.

Dywedodd un sefydliad fod croestoriad eang o staff ar draws y sefydliad wedi cymryd rhan o ysgolion academaidd ac adrannau cymorth, yn ogystal â myfyrwyr. Dim ond un sefydliad a ddywedodd eu bod wedi cynnwys arbenigwr allanol. Dau arsylwad diddorol yma yw cyfraniad myfyrwyr a defnyddio ymgynghorydd allanol i gynnig safbwynt gwahanol a phrofiad ehangach o addysg uwch yn y DU.

Pan soniodd sefydliadau am y diwylliant a'r hinsawdd roeddent yn gweithio ynddo, roedd hyn yn hynod ddefnyddiol o ran gosod y cyd-destun. Er enghraifft, ystyriodd nifer o sefydliadau y lleoliad daearyddol, y gyfradd gyfranogiad isel mewn addysg uwch yn eu rhanbarth neu ystod oedran a chymysgedd gymdeithasol y myfyrwyr. Roedd gan y wybodaeth hon oblygiadau i'r math o gwricwlwm a gynigiwyd neu'r dull o astudio, fel astudio rhan-amser neu amser llawn neu lunio mwy o ddeunyddiau dysgu o bell.

Nodwedd ragorol arall oedd lle mae gan sefydliadau genadaethau a dyheadau i gynnig ethos benodol. Fodd bynnag, efallai bod darparu tystiolaeth o lwyddiant yn y maes hwn yn anoddach i'w gyflawni.

- *…Yn ceisio cynnig amgylchedd dysgu o ansawdd uchel sy'n cynnwys myfyrwyr ar bob lefel mewn profiad dysgu gweithgar a thrawsnewidiol. Rydym yn ceisio meithrin diwylliant o fyfyrio ac arloesi i wella ansawdd a gwerth y profiad hwnnw.*

- *Y genhadaeth yw cynnig addysg ac ymchwil addysg uwch o ansawdd mewn amgylchedd croesawgar, cyfeillgar a chefnogol i fodloni anghenion unigol, lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.*

2. Datganoli strategaethau i adrannau ac ysgolion

Tuedd ddiddorol a chadarnhaol yw llunio strategaethau ar y lefel leol er mwyn gwella perchnogaeth gan aelodau'r sefydliad. Dywedodd pum sefydliad y byddai pob Ysgol/Adran/Cyfadran yn llunio'i Strategaeth Dysgu ac Addysgu a chynllun gweithredu ei hun ar sail yr un sefydliadol:

- *Fel rhan o wella'r amgylchedd dysgu, mae'r Brifysgol yn disgwyl i ysgolion lunio datganiadau cadarn sy'n canolbwyntio ar weithredu, sy'n mynegi'r ffordd y mae ysgolion yn bwriadu gweithredu'r amcanion allweddol a amlinellir yn y strategaeth hon.*

Mewn rhai achosion, mae cyllid lleol i gefnogi gweithredu yn cael ei ddyrannu yn erbyn set o feini prawf cynnig, monitro a gwerthuso. Mae rhai prifysgolion wedi sefydlu gweithgor traws-sefydliad cynrychioladol i ddatblygu'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu. Mae'r mecanwaith hwn yn galluogi i wahaniaethau a hoffterau sy'n benodol i ddisgyblaeth gael eu cefnogi ond mewn fframwaith sefydliadol. Mae perchnogaeth yn fwy tebygol o ddatblygu ar y lefel leol, ond mae angen gofal i sicrhau bod arferion effeithiol yn cael eu mabwysiadu ar y lefel sefydliadol a'u rhannu ar draws meysydd disgyblaeth gwahanol.

Cymariaethau ag arferion mewn lleoedd eraill

Mae'r ymagweddau cyferbyniol at ddatbygiad strategol a nodwyd yn Strategaethau Dysgu ac Addysgu Cymru hefyd wedi'u cydnabod yn Lloegr. Er enghraifft, ym Mhrifysgol John Moores Lerpwl, mae pob adran yn cael hawl cyllid ar ôl derbyn strategaeth ddigonol a chyllid parhaus ar ôl derbyn adolygiadau blynyddol cryno o gynnydd a chynlluniau. (Gibbs, G. 2003, tud. 10)

Efallai bydd strategaethau Dysgu a Addysgu hefyd yn cael eu rheoli gan uwch reolwyr a phwyllgor canolog, gyda chyllid wedi'i ddyrannu gan y canolbwynt ar gyfer mentrau sefydliad cyfan. Mae ymchwil blaenorol wedi dangos efallai na fydd hyn bob amser yn sicrhau'r berchnogaeth neu'r cyfranogiad gan staff ar y lefel leol a ddymunir:

> *Nodwedd llawer o strategaethau dysgu ac addysgu mewn cyfnod datblygu neu weithredu cynnar yw eu bod yn tueddu i roi llawer mwy o fanylion am rôl rheolwyr canolog nag y maent am rôl adrannau neu athrawon. Gan bod angen gwneud y rhan fwyaf o weithredu ar lefel leol, mae'n debygol y bydd angen ennyn adrannau i feddwl am weithredu'r strategaeth, y tu hwnt i drafod y ddogfen sefydliadol yn unig. Un ymagwedd yw gofyn i bob adran ddatblygu'u strategaeth dysgu ac addysgu eu hunain. Efallai y bydd disgwyl i hyn ddangos y ffordd yr eir i'r afael â phrif flaenoriaethau'r strategaeth sefydliadol, ac efallai i osod targedau clir i fesur cynnydd yn eu herbyn.* (HEFCE 2001)

2a. Rheoli Newid

Mae strategaethau Dysgu ac Addysgu yn cynllunio ar gyfer newid sefydliadol uchelgeisiol a chymhleth ar raddfa fawr. Mae rheoli newid ar y raddfa hon yn ddimensiwn pwysig o'r broses strategol ond mae'n anodd iawn rhagweld beth fydd yn dod i'r amlwg o newid a gaiff ei hyrwyddo ar raddfa o'r fath o fewn amserlen strategaeth. Ni ellir ond dychmygu effaith gyfan cynllunio strategol mor gynhwysfawr a manwl. Mewn rhai achosion, teimlwyd efallai bod gan rai sefydliadau ormod o faterion yn eu strategaethau a'u bod yn cyflawni gormod o newid mewn cyfnodau byr iawn. Mae peth tystiolaeth o ddadansoddiad Strategaethau Dysgu ac Addysgu Lloegr, lle bydd sefydliad yn canolbwyntio ar nifer lai o feysydd, mae'n fwy tebygol o fod yn llwyddiannus. Mae'n ddiddorol nodi mai dim ond tri sefydliad yng Nghymru sydd wedi mabwysiadu'r ymagwedd hon. Mae un sefydliad Cymreig wedi minio ffocws ei Strategaeth gyda dau nod allweddol yn unig:

- Gwella cyflogadwyedd a medrau dysgu gydol oes … graddedigion

- Cynnig amgylchedd dysgu cefnogol ac effeithiol ar gyfer poblogaeth myfyrwyr mwyfwy amrywiol.

Mae sefydliad arall yn rhestru tair blaenoriaeth

- Datblygu medrau allweddol myfyrwyr
- Ymgorffori cymorth dysgu yn y cwricwlwm
- Datblygu cymhwyso TGCh mewn dysgu ac addysgu.

Mae trydydd sefydliad yn rhestru pedwar amcan allweddol, sef datblygu

- Yr amgylchedd dysgu
- Y cwricwlwm sy'n galluogi
- Cymorth ar gyfer dysgu
- Staff.

Efallai bod gan rai sefydliadau strategaeth eang ei hystod, ond hoffent ystyried cyfyngu eu ffocws drwy nodi'r hyn a fydd yn cael ei gyflawni o fewn cyfnod penodol.

Adnoddau'r Academi a allai fod o ddiddordeb i sefydliadau

Academi Newid
casgliad o bapurau ar newid sefydliadol, gwaith tîm a gwerthuso newid
www.heacademy.ac.uk/921.htm

Mae cyhoeddiad gan yr Academi, sef 'Change thinking, change practices' gan Paul Trowler, Murray Saunders a Peter Knight yn adnodd defnyddiol gan ei fod yn taro ar gydbwysedd rhwng trafodaeth a gaiff ei llywio gan ymchwil a chyngor ymarferol. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar rolau penaethiaid adran ac arweinwyr rhaglen o ran hyrwyddo a hwyluso newid. Mae'r awduron yn tynnu ar ddeunyddiau ymchwil i nodi chwe dimensiwn allweddol i ddeall newid a dangosant y rhain drwy chwe astudiaeth achos. Maent yn cloi drwy gynnig nifer o wirebau tywys i helpu darllenwyr i ddatblygu eu syniadau am newid (gweler yr enghraifft isod). Gellir lawrlwytho'r cyhoeddiad o dudalen gwe'r Academi Newid.

Rydych yn debygol o fethu ….	**NEWID SYNIADAU, NEWID ARFERION** **Rydych yn debygol o lwyddo os ….**	Gallwch ddisgwyl
1. Os byddwch yn chwilio am atebion cywir unigol	1. Gallwch ddangos bod tystiolaeth, damcaniaeth ac arfer da y tu ôl i'r arloesi arfaethedig	1. Gwrthwynebiad ac ailadeiladu'n lleol (neu anwybyddu, neu fod yn anwybodus am, yr arloesi arfaethedig)
2. Os byddwch yn ystyried dysgu, addysgu ac asesu ar wahân i gyd-destun newidiol AU – yn enwedig newidiadau ym maint a ffurf y corff myfyrwyr	2. Datblygwch neu defnyddiwch 'offer' sydd • Yn generig ac yn addasadwy yn lleol • Yn debygol o beri ymatebion cadarnhaol yn ddeallusol ac yn emosiynol • O fudd i'r rheiny ar lawr gwlad • Yn briodol i anghenion yn y cyd-destun AU newydd	2. Ystyr a chwmpas arloesiad i ddatblygu mewn cyd-destunau lleol wrth i'r rheiny ar lawr gwlad weithio gydag ef
3. Os byddwch yn ystyried arloesiadau mewn arferion dysgu, addysgu ac asesu ar wahân i hunaniaethau, credoau ac arferion cyfredol darlithwyr		3. Canlyniadau gwahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol
4. Os byddwch yn anghofio y bydd cydweithwyr yn aml yn gwrthod newid oni bai y 'cafodd ei ddyfeisio yma'; byddant yn diystyru arloesiadau 'estron': mae NIH (heb ei ddyfeisio yma) yn torri grymoedd newid		
5. Os byddwch yn meddwl am unigolion, nid y grwpiau maent yn gweithio ynddynt		
6. Os byddwch yn anghofio am hanes a chyd-destunau: maent yn effeithio ar y ffyrdd y caiff newidiadau eu deall a'u rhoi ar waith mewn ffyrdd pwysig iawn		

3. Cysylltu ac alinio strategaethau sefydliadol

Mae'n bwysig mewn sefydliadau nad yw strategaethau gwahanol yn tynnu mewn cyfeiriadau gwahanol ac mae'n gyflawniad mawr pan all sefydliadau gysylltu, alinio ac yn y pen draw integreiddio strategaethau a pholisïau nad oeddent yn gysylltiedig o'r blaen. Gall hyn olygu ymdrech fawr gan y sefydliad gan fod yr amryw strategaethau yn aml yn cael eu hysgrifennu gan staff gwahanol ar adegau gwahanol i gyflawni dibenion gwahanol iawn. Er enghraifft, mae gan bolisi ar gydnabyddiaeth a gwobrwyo oblygiadau ar gyfer y strategaeth adnoddau dynol, tra bod dylunio adeilad newydd neu addasu'r amgylchedd ffisegol ar gyfer myfyrwyr anabl yn cael effaith ar y strategaeth ystadau.

Tuedd galonogol yw i sylwadau fod yn gysylltiedig â gwerth integreiddio strategaethau. Soniodd un sefydliad am ymrwymiad i '*ddatblygu cysylltiadau cryfach'* rhwng y strategaeth Dysgu ac Addysgu a'r strategaeth AD yn bennaf drwy sefydlu Fframwaith DPP. Roedd gan Strategaethau Dysgu ac Addysgu eraill gysylltiadau clir â strategaethau AD, Ehangu Cyfranogiad ac Ystadau, gan ddangos cynllunio cydlynol gyda gwerthfawrogiad o'r goblygiadau ar gyfer dysgu ac addysgu ym mhob maes. Gosodwyd targedau'n glir gydag amserlenni, costau, adnoddau a chyfrifoldebau, gan ddangos y rhyng-gysylltiadau.

Soniodd un sefydliad am ffyrdd penodol yr oedd yr amryw strategaethau'n effeithio ar ddysgu ac addysgu. Er enghraifft:

> *Mae'r Strategaeth Gwasanaethau Gwybodaeth yn cefnogi'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu drwy raglen uchelgeisiol o welliant i hwyluso'r defnydd o dechnolegau dysgu newydd i ategu dulliau addysgu a dysgu newydd a chynyddu hygyrchedd, ansawdd ac effeithiolrwydd y profiad dysgu.*

Mae'n amlwg bod y duedd hon tuag at ymagwedd fwy integredig at strategaethau o fudd i fyfyrwyr ac mae'n sicrhau mwy o syniadau cydlynol ar draws sefydliad. Mae hefyd yn caniatáu golwg fwy cyfannol o ble mae angen adnoddau neu angen eu rhannu neu'u targedu ar draws adrannau neu themâu gwahanol.

4. Cwricwlwm ac asesu

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae cryn dipyn o weithgareddau datblygu sefydliadol wedi canolbwyntio ar ymgorffori ymagwedd ganlyniadau at lunio ac asesu cwricwlwm. Mae'r datblygiad wedi cael ei annog gan yr angen am fanylebau rhaglen ac asesu medrau'n fwy amlwg, gan gynnwys medrau allweddol. Yn ystod y cylch cynllunio cyfredol, mae ffurfiau newydd ar ddysgu'n cael eu hannog drwy gyflwyno ffeiliau cynnydd myfyrwyr a chynllunio datblygiad personol yn raddol sy'n cael eu crybwyll yn y rhan fwyaf o strategaethau Addysgu a Dysgu ac sy'n gysylltiedig â gweithredu Cynllunio Datblygiad Personol (CDP) ledled y DU yn 2005-06. (Gweler adran 5a)

Un duedd, a welwyd mewn 50% o strategaethau, yw i sefydliadau adolygu agweddau ar eu cwricwlwm yn eu strategaeth Dysgu ac Addysgu. Roedd hyn yn amrywio o adolygu rhaglenni cyfredol, gyda golwg ar ddiddymu rhai ac ychwanegu rhai mwy priodol, ymgymryd ag archwiliad medrau, adolygu'r cynllun modwlar a'r strategaethau asesu, ymgorffori cymorth dysgu yn y cwricwlwm a rhoi prawf ar dempled newydd ar gyfer manylebau rhaglen sy'n canolbwyntio ar fyfyrwyr.

Nododd un sefydliad ei fod wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth archwilio'r cwricwla ar gyfer hygyrchedd a datblygu cyfundrefn cynllunio gweithredu. Gyda'r ddeddfwriaeth anabledd gyfredol, mae'n bwysig archwilio'r cwricwlwm a chefnogi staff wrth addasu i fethodolegau addysgu priodol i sicrhau dysgu da i'r holl fyfyrwyr. Lluniwyd un adnodd sy'n arbennig o ddefnyddiol yma gan brosiect 'Teachability: Creating an Accessible Curriculum for Students with Disabilities' yr Alban. Rhan o genhadaeth TEACHABILITY yw llunio deunyddiau i gynorthwyo staff academaidd i feddwl am amryw agweddau cyflwyno cwricwla, ac i ystyried newidiadau posibl mewn arferion, er mwyn bodloni anghenion addysgu a dysgu myfyrwyr ag ystod o namau'n fwy effeithiol. Mae'r prosiect wedi'i leoli ym Mhrifysgol Ystrad Clud, yr Alban, ac mae gan y wefan nifer o gyhoeddiadau defnyddiol iawn, fel y nodir isod.

Prosiect Teachability – Prifysgol Ystrad Clud

www.teachability.strath.ac.uk/

1. Creu gwybodaeth hygyrch am gyrsiau neu raglenni astudio ar gyfer myfyrwyr ac ymgeiswyr anabl.
2. Creu dyluniad a strwythur cyrsiau neu raglenni hygyrch ar gyfer myfyrwyr anabl.
3. Creu darlithoedd hygyrch ar gyfer myfyrwyr anabl.
4. Creu seminarau a sesiynau tiwtorial hygyrch ar gyfer myfyrwyr anabl.
5. Creu lleoliadau, teithiau astudio tramor a theithiau maes hygyrch ar gyfer myfyrwyr anabl.
6. Creu dosbarthiadau ymarferol hygyrch ar gyfer myfyrwyr anabl.
7. Creu adnoddau e-ddysgu hygyrch ar gyfer myfyrwyr anabl.
8. Creu arholiadau ac asesiadau hygyrch ar gyfer myfyrwyr anabl.

Bwriedir canllaw atodol, sef 'Accessible Curricula: Good Practice for All', fel ffynhonnell gwybodaeth i helpu staff prysur i fod yn ymwybodol o newidiadau diweddar a bod yn barod i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth anabledd newydd. Mae wedi'i ddylunio i gynorthwyo cydweithwyr i gyflwyno gwaith cwrs i roi lle i anghenion amrywiol poblogaethau myfyrwyr. Cafodd ei ysgrifennu gan Carol Doyle a Karen Robson, Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd a gellir ei lawrlwytho o wefan yr Academi.

Adnoddau'r Academi a allai fod o ddiddordeb i sefydliadau

Cwricwla Hygyrch: Arfer Da i Bawb
www.heacademy.ac.uk/resources.asp?process=full_record&section=generic&id=128

Tuedd gynyddol ymysg myfyrwyr ledled y DU yw iddynt fynychu drwy amryw ddulliau, rhan-amser, amser llawn, ar y campws ac oddi ar y campws. I ddarparu ar gyfer yr amrywiaeth hon, mae un sefydliad yn rhoi cynllun peilot ar brawf lle bydd rhaglen yn dechrau ym mis Ionawr. Mae hyn yn caniatáu i fyfyrwyr gwblhau graddau mewn llai na thair blynedd drwy astudio dros wyliau'r haf. Bydd yn ddiddorol gweld datblygiad y rhaglen hon. Mae'r un sefydliad hefyd yn dylunio strwythur rhaglen hyblyg i alluogi myfyrwyr i gyfuno gwahanol ddulliau astudio. Bydd hyn yn cynnwys cyfuniad o ddysgu o bell, astudio ar y campws a darpariaeth allgymorth â chefnogaeth. Yn ogystal, mae llwybrau dilyniant yn cael eu harchwilio drwy gynnwys achredu dysgu blaenorol a dysgu drwy brofiad a nodi llwybrau dilyniant clir ar gyfer pob maes pwnc. Bydd hyn yn galluogi myfyrwyr i symud yn rhwydd o lefel israddedig i ôl-raddedig.

Nododd sefydliad arall y medrau a'r galluoedd y mae'n ceisio eu hyrwyddo a'u datblygu ymysg eu myfyrwyr yn glir. Mae'r rhain yn cynnwys gallu i ymateb yn ddadansoddol, yn feirniadol ac yn greadigol i amrywiaeth o sefyllfaoedd a phrofiadau, a'r medrau academaidd a throsglwyddadwy i'w galluogi i lwyddo a pharhau i ddysgu ar ôl iddynt raddio. Mae ail sefydliad yn nodi pecyn o briodoleddau sy'n cynnwys cariad a pharch at ddysgu y mae'n disgwyl i'w raddedigion weithio tuag at eu cyflawni (sylwer: canlyniadau addysgol dymunol yw'r rhain yn hytrach na chanlyniadau penodol y mae'n rhaid i fyfyrwyr eu cyflawni). Efallai un thema ar gyfer ymholiadau yn y dyfodol fyddai gweld cyffredinedd a gwahaniaethau'r amgyffrediadau hyn o briodoleddau graddedigion rhwng gwahanol sefydliadau. A ydym yn gweld datblygiad proffiliau canlyniadau graddedigion nodedig mewn gwahanol sefydliadau?

Mae dylunio cwricwlwm yn broses bwysig, heriol a chreadigol. Mae'r Academi Addysg Uwch yn cefnogi sefydliadau a'u staff yn y broses hon drwy gynnig adnoddau, ymgymryd ag ymchwil a threfnu digwyddiadau. Mae ei gwaith wedi'i gydlynu drwy'r Prosiect Cwricwlwm Dychmygus.

Adnoddau'r Academi a allai fod o ddiddordeb i sefydliadau

Y Cwricwlwm Dychmygus
www.heacademy.ac.uk/curriculum.htm
www.heacademy.ac.uk/creativity.htm

Adnoddau enghreifftiol
Canllawiau cwricwlwm e.e.
- Alinio adeiladol
- Dysgu yn seiliedig ar broblemau
- Dysgu drwy ymchwilio
- Cwricwlwm menter
- Gemau, efelychiadau a chwarae rôl

Rhwydwaith e-bost gweithredol o ymarferwyr sydd â diddordeb
Papurau gwaith ar Greadigrwydd yn Nysgu Myfyrwyr
Astudiaethau ymchwil
Gweithdai a chynadleddau

4a. Asesu

Tuedd allweddol (50%) yw i sefydliadau Cymru sôn am asesu fel elfen bwysig o'u strategaeth. Amlygodd un sefydliad 'Asesu ar gyfer dysgu llwyddiannus', lle cynllunnir adolygiad sefydliad cyfan yn ystod y flwyddyn academaidd, yn canolbwyntio ar:

- Bwyslais asesu
- Asesu ar sail meini prawf
- Asesu cymheiriaid
- Llên-ladrad a'i ganfod
- Asesu medrau yn y cwricwlwm.

Mae sefydliadau eraill yn dymuno sicrhau bod asesu'n briodol ac yn deg:

> *Bod asesu ar gyfer pob rhaglen yn deg ac yn gyfiawn, gan alluogi myfyrwyr o gefndiroedd amrywiol i wneud y gorau o gyflawni canlyniadau dysgu.*

Mae un sefydliad yn ymwneud â phrosiect ymchwil asesu yn y Gyfadran Celf a Dylunio. Mae'r prosiect, sydd wedi'i ariannu'n rhannol gan y Ganolfan Bwnc ar gyfer Celf, Dylunio a'r Cyfryngau, yn canolbwyntio ar 'Dyslecsia fel arddulliau gwybyddol: strategaethau ochr dde'r ymennydd ar gyfer tasgau ochr chwith yr ymennydd'. Un o amcanion y prosiect hwn yw cyfrannu at ddatblygu ffurfiau gwahanol ar asesu ar gyfer myfyrwyr sy'n gweithio ar lefel traethawd hir. O ganlyniad i hyn, mae dau fyfyriwr yn rhoi traethodau hir gweledol ar brawf.

Mae sefydliad arall yn cynnwys fel nod strategol '*Mesurau a gymerwyd mewn ymateb i amrywiaeth o faterion dysgu, addysgu ac asesu'.* Mae'r ffocws ar annog y meysydd pwnc gwahanol i chwilio am atebion y tu hwnt i'w diwylliannau ac arferion traddodiadol i ddarparu ar gyfer anghenion amrywiol myfyrwyr. Roedd y newid diwylliannol yn rhagweld heriau i'r staff ystyried yn feirniadol y ffordd y maent yn defnyddio asesu, yn enwedig yn y flwyddyn gyntaf, er mwyn i fyfyrwyr ffynnu a llwyddo.

Adnoddau'r Academi a allai fod o ddiddordeb i sefydliadau

Mae'r Ganolfan Bwnc Athroniaeth ac Astudiaethau Crefyddol
www.prs.heacademy.ac.uk/diversity/index.html

yn gweithio ar brosiect gyda Chanolfannau Pwnc eraill i ymchwilio i oblygiadau materion diwylliannol a chrefyddol mewn addysg uwch, yn enwedig ar gyfer y cwricwlwm (er enghraifft, arddull addysgu, cynnwys, asesu a chymorth i fyfyrwyr).

Sefydlwyd y prosiect mewn ymateb i ddiddordeb gan y gymuned academaidd gan eu bod yn canfod eu bod yn gweithio gyda phoblogaeth myfyrwyr fwyfwy amrywiol. Hefyd, mae deddfwriaeth wedi'i chyflwyno'n ddiweddar sydd wedi achosi pryderon, a pheth ansicrwydd, ynglŷn â goblygiadau ar gyfer y cwricwlwm. Er enghraifft, mae Rheoliadau Cydraddoldeb Cyflogaeth (Crefydd neu Gred) 2003, a gyflwynwyd mewn ymateb i'r Gyfarwyddeb Cyflogaeth, yn gwahardd gwahaniaethu ar sail crefydd neu gred ym maes cyflogaeth a hyfforddiant galwedigaethol. Bydd gan hyn oblygiadau ar gyfer myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn dysgu yn y gwaith. Am wybodaeth bellach am y ddeddfwriaeth hon, rydym yn awgrymu eich bod yn mynd i **www.acas.org.uk**.

Mae rhai sefydliadau yn Lloegr wedi rhoi'r teitl strategaeth Dysgu, Addysgu ac Asesu i'w strategaeth i gydnabod pwysigrwydd asesu. Yn 2001, roedd 45% o strategaethau dysgu ac addysgu yn Lloegr wedi mynd i'r afael ag asesu gan yr ystyriwyd hyn yn ganolog i newidiadau eraill i addysgu a dysgu mewn llawer o sefydliadau. Erbyn 2003, nododd Gibbs fod asesu'n cael ei gynnwys yn gyffredin mewn strategaethau dysgu, addysgu ac asesu, gyda mentrau sefydliad

cyfan i newid asesu, mewn perthynas â chanlyniadau dysgu ac i gynnig mwy o gymorth ar gyfer dysgu fel ei gilydd.

> *Ceir amgyffrediad eang bod pwyslais yr ASA ar fesur a safonau wedi digwydd ar draul defnyddio asesu i gefnogi dysgu, a bod dirywiad wedi digwydd mewn asesu ffurfiannol. Mae hyn yn destun pryder gan fod y symudiad i gwricwla a lywir gan ganlyniadau dysgu wedi pwysleisio canlyniadau sy'n ymwneud â medrau a galluoedd y mae angen ymarfer ac adborth arnynt i ddatblygu. Yn anochel, mae angen mwy o asesu ffurfiannol i ddatblygu medrau, nid llai.* (Gibbs, 2003)

Mater allweddol wrth hyrwyddo dysgu myfyrwyr yw'r cydbwysedd mewn unrhyw strategaeth asesu rhwng asesu sydd wedi'i gynllunio i roi barnau am allu neu fedrusrwydd academaidd ac asesu sydd wedi'i gynllunio i gynnig adborth i fyfyrwyr i wella ansawdd eu dysgu. Yn draddodiadol, mae addysg uwch wedi rhoi mwy o bwyslais ar y cyntaf yn hytrach na'r ail, ond mae rhai sefydliadau'n dechrau rhoi mwy o sylw i rôl asesu ffurfiannol. Lluniodd prosiect a gynhaliwyd gan Brifysgolion yr Alban: Is-grŵp Datblygiad Addysgol, gyda chyllid gan y gyn Ganolfan Generig LTSN, gyhoeddiad o'r enw 'Student Enhanced Learning through Effective Feedback' (SENLEF). Roedd hyn yn canolbwyntio ar asesu ffurfiannol ac mae'n cynnwys saith egwyddor asesu, gydag enghreifftiau ymarferol o'r ffordd y gellir cyflawni'r egwyddorion hyn. Yn ogystal, mae nifer o astudiaethau achos ledled yr Alban sy'n dangos ffyrdd effeithiol o roi adborth i fyfyrwyr ar eu gwaith asesedig. Mae hyn ar gael o wefan yr Academi:

Adnoddau'r Academi a allai fod o ddiddordeb i sefydliadau

Dysgu Gwell i Fyfyrwyr drwy Adborth Effeithiol

www.heacademy.ac.uk/senlef.htm

Mae arfer da o ran adborth:

1. Yn hwyluso datblygiad hunanasesu (myfyrio) mewn dysgu
2. Yn annog dialog ymhlith athrawon a chymheiriaid ynghylch dysgu
3. Yn helpu i egluro beth yw perfformiad da (nodau, meini prawf, safonau disgwyliedig)
4. Yn cynnig cyfleoedd i gau'r bwlch rhwng perfformiad presennol a dymunol
5. Yn cyflwyno gwybodaeth o ansawdd uchel i fyfyrwyr am eu dysgu
6. Yn annog credoau cymelliadol cadarnhaol a hunan-barch
7. Yn cynnig gwybodaeth i athrawon y gellir ei defnyddio i lunio'r addysgu.

Rhoddir enghreifftiau ymarferol i gefnogi pob egwyddor. Mae'r enghraifft a roddir isod yn amlygu'r egwyddor o 'Annog credoau cymelliadol cadarnhaol a hunan-barch':

Dysgu Gwell i Fyfyrwyr drwy Adborth Effeithiol

Annog credoau cymelliadol cadarnhaol a hunan-barch

Mae ymchwil wedi dangos y gall adborth gael effeithiau cadarnhaol neu negyddol ar gredoau cymelliadol cadarnhaol a hunan-barch myfyrwyr. Mewn un astudiaeth, dangosodd Butler (1988) fod sylwadau adborth ar eu pen eu hunain yn cael mwy o effaith ar ddysgu dilynol myfyrwyr na sefyllfaoedd cymaradwy lle rhoddwyd marciau'n unig neu adborth a marciau. Roedd Butler yn dadlau bod myfyrwyr yn rhoi llai o sylw i'r sylwadau pan roddir marciau iddynt ac nad ydynt yn eu defnyddio i wneud gwelliannau. Mewn astudiaeth arall, roedd Butler yn dadlau bod graddio perfformiad myfyrwyr yn cael llai o effaith na sylwadau adborth oherwydd ei fod yn arwain myfyrwyr i gymharu'u hunain yn erbyn eraill yn hytrach na chanolbwyntio ar ble roeddent yn cael anawsterau.

Dangoswyd hefyd bod adborth a roddwyd ar ffurf graddau yn cael effeithiau negyddol ar hunan-barch myfyrwyr o allu isel (Craven et al 1991). Mae Dweck (2000) wedi dehongli rhai o'r canfyddiadau hyn yn nhermau model damcaniaethol sy'n rhannu dysgwyr yn ddau gategori; y rheiny sy'n credu bod eu gallu'n sefydlog (h.y. mae cyfyngiad i'r hyn y gellir ei gyflawni) a'r rheiny sydd o'r farn bod eu gallu'n hydrin ac yn dibynnu ar yr ymdrech a roddir i dasg (h.y. gellir gwella perfformiad drwy wneud mwy o ymdrech). Y goblygiad i arferion addysgu yw y dylai fod llawer o dasgau risg isel gydag adborth sy'n pwysleisio cynnydd a chyflawniad (e.e. drafftiau, ailgyflwyniadau a phrofi awtomatig gydag adborth) yn hytrach na thasgau asesu crynodol risg uchel.

Gallai strategaethau ar gyfer arferion da gynnwys:

1. rhoi marciau ar waith ysgrifenedig dim ond ar ôl i fyfyrwyr ymateb i sylwadau adborth
2. dyrannu amser i fyfyrwyr ailysgrifennu darnau dethol o waith, gan y byddai hyn yn helpu i newid disgwyliadau myfyrwyr am ddiben
3. profi awtomatig gydag adborth
4. drafftiau ac ailgyflwyniadau.

Mae gan y Ganolfan Bwnc Biowyddoniaeth Grŵp Diddordeb Arbennig ar asesu ffurfiannol y gellir ei asesu yn: **www.open.ac.uk/science/fdtl/sig.htm**. Gellir gweld manylion pellach am Grwpiau Diddordeb Arbennig (SIGs) ar wefannau'r Canolfannau Pwnc unigol. Ewch i **www.heacademy.ac.uk**

Offeryn Archwilio Asesu

Mae'r offeryn archwilio asesu yn ddatblygiadol, gan helpu i nodi meysydd ar gyfer gwelliant yn y dyfodol ac nid dim ond i lunio sgôr cyffredinol ar gyfer modiwl. Gellir ei ddefnyddio'n fuddiol ar 'Ddiwrnodau i Ffwrdd', gwerthusiad ar ddiwedd cwrs, fel rhan o adolygiad cwrs neu wrth lunio cwrs newydd. Datblygwyd yr offeryn archwilio gan yr Athro Ian Hughes, Cyd-gyfarwyddwr Canolfan Bwnc Biowyddoniaeth yr Academi Addysg Uwch ac Athro Addysg Fferylliaeth, Prifysgol Leeds, fel rhan o'i Gymrodoriaeth Addysgu Genedlaethol. (**www.bioscience.heacademy.ac.uk/resources/Audit.htm**)

Er enghraifft:

1. A yw'r dulliau asesu'n briodol i'r amcanion dysgu?

	Sgôr
1.1 A yw'r amcanion dysgu (h.y. y newidiadau yng ngwybodaeth, medrau ac agweddau'r myfyriwr) yn amlwg ar gyfer y modiwl **ac** ar gyfer pob darn o waith elfen gyfansoddol lle bo'n briodol?	
1.2 A yw'r mathau gwahanol o elfennau yn yr Amcanion Dysgu wedi'u hadlewyrchu yn yr asesiad*? (e.e. gwybodaeth, dealltwriaeth, medrau, agweddau ac ati)*	
1.3 Wrth osod yr Amcanion Dysgu, a roddir ystyriaeth i'r amcanion dysgu mewn modiwlau cydamserol neu flaenorol eraill?	
1.4 A oes cyflawniad gwahanol ym mhob Amcan Dysgu y gellir eu nodi **ar wahân** gan y myfyriwr yn yr asesiad cyffredinol?	
1.5 A gaiff dulliau/amodau asesu eu haddasu'n briodol ar gyfer myfyrwyr anabl?	
1.6 A yw myfyrwyr yn cael profiad o'r dull asesu cyn iddo gael ei ddefnyddio'n grynodol*? Naill ai yn y modiwl hwn neu mewn modiwl blaenorol?*	
1.7 Efallai y bydd un math o asesu (e.e. pob MCQ) yn achosi anfantais i rai myfyrwyr. A ddefnyddir amrywiaeth o ddulliau asesu o dan amgylchiadau gwahanol? *[Er enghraifft, gellir asesu gwybodaeth gan ddefnyddio MCQ, EMQ, SAQ, traethodau wedi'u marcio am eu cynnwys ffeithiol ac ati. I ba raddau y defnyddir technegau asesu gwahanol i roi amrywiaeth o ffyrdd i fyfyrwyr ddangos eu galluoedd?]*	
Sgôr yr adran (% o gyfanswm yr adran)	

Tuedd arall yw i sefydliadau Cymru annog staff i ystyried y dylanwad a gaiff asesu ar ddysgu a chadw myfyrwyr. Er enghraifft

- *Asesu – amrywiaethu asesu myfyrwyr i ymdrin â'r ystod lawn o anghenion, gwella cadw a chynnal gofal da o safonau ansawdd*

- *Bydd y dylanwad a gaiff asesu ar strategaethau dysgu myfyrwyr yn cael ei ystyried wrth ddewis dulliau addysgu a dysgu. Bydd natur y dulliau a'r strategaethau a ddefnyddir mewn modiwlau unigol hefyd yn cydnabod effaith niferoedd cynyddol o fyfyrwyr a'r angen i gyflwyno addysgu'n effeithlon.*

Mae asesu'n un o'r themâu ar gyfer agenda Gwella Ansawdd sefydliadau addysg uwch yr Alban. Efallai yr hoffai sefydliadau Cymru gysylltu â gwefan Gwella Ansawdd yr Alban. Mae'n cynnwys gwybodaeth o flwyddyn gyntaf y themâu gwella ar asesu ac ymateb i anghenion myfyrwyr, ac, o'r flwyddyn bresennol, am gyflogadwyedd a dysgu hyblyg. Mae adnoddau o'r gweithdai a gynhaliwyd ledled yr Alban dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a chyfres o gyhoeddiadau eraill i gyd ar gael i'w lawrlwytho yn: **www.enhancementthemes.ac.uk**.

Adnoddau'r Academi a allai fod o ddiddordeb i sefydliadau

Asesu Dysgu

www.heacademy.ac.uk/Assessmentoflearning.htm

Dros 50 o eitemau i'w lawrlwytho, gan gynnwys 12 cyhoeddiad sy'n cwmpasu themâu fel asesu â chymoth cyfrifiadur, gweithredu strategaeth asesu sefydliadol a chanllawiau ar gyfer uwch reolwyr, darlithwyr a myfyrwyr.

Rheoli'r Clwb Meincnodi Asesu Myfyrwyr (MESA) yn Effeithiol

www.heacademy.ac.uk/799.htm

Astudiaeth Achos 1 – Amrywiaeth asesu

Mae Stuart ym mlwyddyn gyntaf cwrs gradd modiwlaidd ar hyn o bryd, ac mae'n rhaid iddo astudio deg modiwl yn ystod y flwyddyn. Er ei fod ond hanner ffordd drwy'r flwyddyn academaidd, mae Stuart yn teimlo'i fod wedi gweld pob dull asesu yn y byd. Er enghraifft, ar gyfer un o'r modiwlau blwyddyn o hyd, mae gofyn iddo lunio portffolio; yn y modiwl ystadegau, mae'n rhaid iddo ymgymryd ag asesu rheolaidd â chymorth cyfrifiadur; ar gyfer un o'r modiwlau strategaeth, mae'n rhaid iddo wneud cyflwyniad ar fideo, yn ogystal â chreu poster yn seiliedig ar rywfaint o waith grŵp. Yn un o'i fodiwlau dewisol, dyrannodd arweinydd y modiwl grwpiau bach, gan dynnu ar ddiwylliant y cyfryngau poblogaidd, i gymryd rhan mewn cwis – wedi'i seilio ar 'Who Wants to be a Millionaire?' – ar ddechrau pob seminar. Roedd dull Stuart o gyflawni'i asesiadau'i hun hefyd yn amrywio. Ar gyfer y gwaith grŵp poster, caniatawyd i'r myfyrwyr ddewis eu grwpiau'u hunain a dewisodd Stuart ymuno â'i gyfeillion sydd ychydig yn ystyfnig. Yn gyferbyniol, ar gyfer y cwis, cafodd ei ddyrannu i grŵp a oedd yn cynnwys dau fyfyirwr Tsieniaidd a Chypriad. Yn ystod yr ymarfer hwn, ymddengys i Stuart dreulio'r rhan fwyaf o'i amser yn disgrifio cysyniad y rhaglen 'Who Wants to be a Millionaire?' i'r myfyrwyr rhyngwladol.

Mae asesu o bwys i staff a myfyrwyr. Un ffordd o helpu i godi materion a chynnig atebion yw cynnal gweithdai ar y cyd gyda staff a myfyrwyr. Gall hyn helpu'r ddwy ochr i ddeall y materion asesu o safbwynt arall. Lluniodd Clwb Meincnodi diweddar yr Academi 'Rheoli Asesu Myfyrwyr yn Effeithiol (MESA)', a oedd yn cynnwys wyth sefydliad â diddordeb mewn cydweithredu i wella'u harferion asesu, gyfres o astudiaethau achos ar sail materion go iawn roeddent wedi'u hwynebu. Er enghraifft, yn astudiaeth achos un (wedi'i rhestru ar dud.10), gofynnwyd i gydweithwyr drafod: Beth yw'r materion allweddol i'r myfyriwr? A beth yw'r materion allweddol i'r sefydliad? Yna, darperir peth gwybodaeth gyd-destunol ychwanegol am y myfyriwr a'r sefydliad, sy'n galluogi cyfranogwyr mewn gweithdy i ystyried y pwyntiau dysgu o'r astudiaeth achos, a hefyd yr ystyriaethau allweddol sy'n dod i'r amlwg.

Mae un sefydliad yng Nghymru yn edrych ar ffyrdd o ddefnyddio gwasanaeth datgelu llên-ladrad JISC. Mae llên-ladrad yn dod yn broblem gynyddol ac yn un y mae angen mynd i'r afael â hi gyda'r holl fyfyrwyr yn gynnar yn eu cwrs. Mae Stefani a Carroll (2001) yn dweud y bydd myfyrwyr yn deall orau yr hyn y mae llên-ladrad yn ei olygu os byddant yn mynd ati i weithio â pha ddiffiniadau bynnag a roddir iddynt. Un ffordd o gyflawni hyn (ac annog trafodaeth) yw gofyn iddynt am eu henghreifftiau eu hunain neu gynnig rhai eich hunain.

Adnoddau'r Academi a allai fod o ddiddordeb i sefydliadau

Briffio ar Lên-ladrad

www.heacademy.ac.uk/resources.asp?process=full_record&section=generic&id=10

"Copïodd Jane chwe pharagraff o'r we y noson cyn roedd rhaid iddi gyflwyno'i thraethawd oherwydd bod ganddi brinder amser, a phan gafodd ei herio, dywedodd ei bod yn credu bod y wybodaeth ar y we am ddim." Oedd hi'n bwriadu cyflawni llên-ladrad? A gyflawnodd hi lên-ladrad mewn gwirionedd? "Prynodd John draethawd gan gyflenwr masnachol." Oedd e'n bwriadu cyflawni llên-ladrad? "Gwnaeth Abu a Raphael y gwaith gyda'i gilydd a chyflwynodd y ddau ohonynt yr atebion fel ei waith ei hun." Oedd eu cydweithrediad yn golygu eu bod wedi cyflawni llên-ladrad? (Stefani a Carroll, 2001)

4b. Materion Rhyngwladol

Tuedd allweddol arall oedd mewn perthynas â materion rhyngwladol, gyda dwy brif thema'n dod i'r amlwg. Roedd un ohonynt yn ymwneud â chefnogi staff a rhyngwladoli'r cwricwlwm, tra roedd gan yr agwedd arall y nod penodol o gynyddu nifer y myfyrwyr rhyngwladol.

Mae'r cwricwlwm yn rhan hanfodol o brofiad dysgu'r myfyrwyr ac felly dylid croesawu ffocws o'r fath ar adolygu ei gynnwys. Wrth i'n myfyrwyr ddod yn fwy amrywiol, dylid croesawu adolygiad o berthnasedd y cwricwlwm i'r byd heddiw. Yn enwedig gyda'r nifer gynyddol o fyfyrwyr rhyngwladol, byddai'n amserol i sicrhau bod y cwricwlwm yn adlewyrchu amrywiaeth ein poblogaeth myfyrwyr. Soniodd nifer o sefydliadau am fyfyrwyr rhyngwladol.

- *Mae'r Brifysgol wedi cychwyn strategaeth o ryngwladoli. Mae hon yn fenter eang a fydd yn cwmpasu gweithgareddau fel recriwtio myfyrwyr a staff, y cwricwlwm a'i gyflwyno, datblygu staff ac ystadau, a mwy. Bydd dilyn strategaeth o'r fath nid yn unig yn cyfoethogi profiad myfyrwyr a staff y Brifysgol ond bydd hefyd yn cyfrannu at nod Llywodraeth Cynulliad Cymru o greu sector AU a chymuned ehangach sy'n fywiog, yn amrywiol ac yn gyfiawn.*

Roedd sefydliadau eraill eisiau:

- *Sicrhau y caiff anghenion iaith a dysgu myfyrwyr rhyngwladol eu cefnogi'n briodol. Roeddent hefyd eisiau trafod materion sy'n codi o e.e. proses Bologna, gan gynnwys ECTS a'r Atodiad Diploma*
- *Cynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau rhyngwladol drwy drosglwyddo arbenigedd a thechnoleg rhwng y Brifysgol a sefydliadau tramor a darparu cyfleoedd dysgu o ansawdd uchel yn y Brifysgol a thramor*
- *Adolygu gwasanaethau cefnogi ar gyfer myfyrwyr tramor.*

Roedd gan dri sefydliad nod penodol o gynyddu niferoedd y myfyrwyr rhyngwladol*:*

- *Bydd targedau penodol yn cael eu gosod mewn perthynas â recriwtio myfyrwyr rhyngwladol*
- *Parhau i recriwtio myfyrwyr preswyl o'r DU a thramor*
- *Un o'r datblygiadau strategol yw cynyddu cyfran y myfyrwyr rhyngwladol yn y Coleg, gan dargedu Asia yn benodol.*

Efallai yr hoffai rhai sefydliadau ystyried ffyrdd y gellid gwella rhyngwladoli'r cwricwlwm a chefnogi myfyrwyr rhyngwladol.

Strategaeth ryngwladol Prifysgol Fetropolaidd Leeds (2004–08)

www.leedsmet.ac.uk/internat/faculty/docs/Internationalisation%20final.doc

Rhyngwladoli yw … 'y broses o integreiddio dimensiwn rhyngwladol/rhyngddiwylliannol yn addysgu, ymchwil a gwasanaeth sefydliad.'[1]

"Nid cynnig mynediad i ystafelloedd dosbarth a chyfrifiaduron yn unig y mae ei angen ar gyfer amrywiaeth, ond i'n gilydd, i'n hieithoedd, i'n diwylliannau ac i'n hunain."
Yr Athro Simon Lee, Is-ganghellor

Yn 2004, defnyddiodd LMU gyfle'r Academi Newid i helpu i gynllunio sut gallai gyflawni ei nodau strategol.

[1] Knight, J. a de Wit, H. 1995, 'Strategies for internationalisation of higher education: historical and conceptual perspectives' yn de Wit (gol). *Strategies for internationalisation of higher education*, EAIE, Amsterdam

5. Cyflogadwyedd

Mae cyflogadwyedd yn rhan ddatblygedig iawn o bob strategaeth. Roedd tystiolaeth glir o'r cysylltiadau llwyddiannus iawn â GO Cymru a chydag amrywiaeth o ganlyniadau diddorol ac amrywiol.

Roedd gan un sefydliad darged penodol i sicrhau y gall 96% o'i raddedigion (94.2% ar hyn o bryd) gael gwaith neu gyfleoedd addysg bellach ar ôl gorffen eu hastudiaethau, erbyn 2009-10.

Roedd sefydliad arall wedi ymrwymo i lunio cwricwla sy'n alwedigaethol, yn canolbwyntio ar berfformiad ac wedi'u haddasu i ddatblygiadau mewn arferion proffesiynol. Mae arferion arloesol yn cynnwys datblygu ystod eang o leoliadau posibl ym meysydd cerddoriaeth gymunedol ac addysg gerddoriaeth mewn ysgolion, ac ymgymryd â chynllun peilot a oedd yn cynnig cyfle i 10 myfyriwr gysgodi athrawon offerynnol teithiol.

Roedd agweddau eraill ar yr agenda cyflogadwyedd yn cynnwys cynnal a datblygu partneriaethau agos â diwydiant a chyflogwyr, gan ymateb i'w hanghenion drwy roi'r medrau lefel uchel a'r hyblygrwydd i raddedigion y bydd eu hangen arnynt yn y dyfodol i addasu i weithle sy'n newid yn barhaus.

Roedd hyn yn cynnwys datblygu medrau, cynllunio datblygu prifysgol cyfan, mwy o gyfleoedd ar gyfer lleoliadau gwaith, ffyrdd ar-lein o gynnwys myfyrwyr mewn gweithgareddau rheoli gyrfa, datblygu cysylltiadau agosach rhwng y gwasanaeth gyrfaoedd a'r adrannau academaidd ac estyn datblygiad proffesiynol parhaus wedi'i ymgorffori i ystod ehangach o fyfyrwyr ail flwyddyn.

Roedd gan un sefydliad 'Gwella cyflogadwyedd a medrau dysgu gydol oes ei raddedigion' yn un o'i ddau brif nod, gyda'r amcanion canlynol

- *Rhaglen astudio berthnasol – wedi'i hategu gan gysylltiadau cadarn â diwydiant a galwedigaethau*
- *Codi dyheadau myfyrwyr*
- *Datblygu diwylliant o entrepreneuriaeth*
- *Cyfleoedd dysgu yn y gwaith*
- *Pwyslais ar fedrau trosglwyddadwy allweddol*
- *Ymwybyddiaeth myfyrwyr o nodweddion a gofynion sector dethol*
- *Gallu i gynllunio gyrfa*
- *Hunanymwybyddiaeth myfyrwyr a'u gallu i nodi eu hanghenion datblygu eu hunain.*

Cyllidodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE) brosiect ar gyflogadwyedd o'r enw Enhancing Student Employability Skills Co-ordination Team (ESECT). O ganlyniad i'r prosiect hwn a gwaith cyflogadwyedd yr Academi, mae nifer sylweddol o adnoddau wedi'u llunio ac maent oll ar gael i'w lawrlwytho yn: **www.heacademy.ac.uk/employability.asp**.

Mae gan Ganolfannau Pwnc yr Academi nifer o adnoddau sy'n gysylltiedig â chyflogadwyedd, gan gynnwys Addysgeg ar gyfer cyflogadwyedd, Dysgu yn y gwaith a chyflogadwyedd, Archwilio cyflogadwyedd a Rôl mathau o gardiau mewn dysgu cyflogadwyedd.

Adnoddau'r Academi a allai fod o ddiddordeb i sefydliadau

Canolfan Bwnc ar gyfer Daearyddiaeth, Gwyddorau'r Ddaear a'r Amgylchedd (GEES) Proffiliau Cyflogadwyedd GEES

www.gees.ac.uk/projtheme/emp/empprofs.htm

Mae'r pecyn adnoddau hwn yn cynnwys proffiliau o ddisgyblaethau pwnc Daearyddiaeth, Gwyddorau'r Ddaear a'r Amgylchedd (GEES), wedi'i ysgrifennu o safbwynt 'cyflogadwyedd'. Bwriedir i'r proffiliau gynorthwyo'n myfyrwyr i fynegi dimensiwn pwnc yr hyn sydd ganddynt i'w gynnig i gyflogwyr, h.y. am beth oedd eu gradd a pha rinweddau y mae wedi'u helpu i'w datblygu.

Ni fwriedir i'r proffiliau cyflogadwyedd fod yn ddisgrifiadau diffiniadol o'r pynciau GEES. Yn hytrach, maent yn grynodebau sydd wedi'u llunio i bwysleisio'r medrau, y wybodaeth a'r galluoedd y gall ein myfyrwyr eu cynnig i gyflogwyr.

Thema Gwelliant yr Alban: Cyflogadwyedd

www.enhancementthemes.ac.uk/defaultpage121bc1.aspx?pageID=165

Yn ogystal, mae cyflogadwyedd yn un o ddwy thema welliant yn yr Alban am y flwyddyn academaidd 2005–06, ac mae adnoddau ar gael ar wefan thema Gwelliant yr Alban, gan gynnwys nifer o astudiaethau achos ar arferion da sy'n gysylltiedig â chyflogadwyedd gan SAUau yr Alban. Mae enghreifftiau o astudiaethau achos yn cynnwys;

Integreiddio Cyflogadwyedd, Cynllun Datblygiad Personol a Dysgu o fewn y Gwaith yn y Cwricwlwm
Anne Gifford a Jane Robertson, Prifysgol Paisley

Dylunio Cwricwlwm ar gyfer Cyflogadwyedd
Dr Sara Lodge, Ysgol Saesneg, Prifysgol St Andrews

Rheoli Sefydliadau Gwirfoddol: Integreiddio Theori ac Arfer drwy'r 'Daith Ddysgu'
Eleanor Burt, Ysgol Reolaeth, a Colin Mason, SALTIRE, Prifysgol St Andrews

Roedd nodweddion sefydliadol diddorol eraill yn cynnwys 'Grŵp Hyrwyddwyr Cyflogadwyedd' ym mhob ysgol lle mae hyrwyddwr o'r fath yn gyfrifol am hybu'r agenda, adrodd i'r panel Dysgu ac Addysgu, a lle anogwyd Byrddau Ymgynghorol Pwnc i gynnwys cynrychiolwyr o gyflogwyr cysylltiedig ym mhob maes rhaglen alwedigaethol. Mae hyn hefyd wedi bod yn arfer llwyddiannus yn yr Alban, lle mae hyrwyddwyr sefydliadol wedi cwrdd i rannu arferion fel rhan o'r agenda gwella cyflogadwyedd.

5a. Cynllunio Datblygiad Personol (CDP)

Tuedd allweddol yn yr holl strategaethau yw datblygiad cynlluniau datblygiad personol (CDP). Roedd llawer o sefydliadau eisoes wedi datblygu cynllun peilot ac roeddent bellach yn cyflwyno hyn ar draws y boblogaeth o fyfyrwyr. I ategu CDPau, soniodd y rhan fwyaf o strategaethau am ddatblygu ac integreiddio amrywiaeth o fedrau yn y cwricwlwm a oedd yn cynnwys dadansoddi beirniadol, rhesymu, dysgu drwy fyfyrio, medrau ysgrifennu rhugl a medrau cyfathrebu a chyflwyno.

Y Ganolfan ar gyfer Cofnodi Cyflawniad (CRA)

www.recordingachievement.org

Mae CRA yn sefydliad rhwydwaith ac elusen addysgol gofrestredig i'r DU gyfan. Mae'n ceisio "hyrwyddo ymwybyddiaeth o gofnodi cyflawniadau prosesau a phrosesau cynllunio gweithredu fel elfen bwysig mewn gwella dysgu a dilyniant drwy'r byd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth". Mae'r Academi wedi contractio CRA i gynnig ystod o wasanaethau i helpu sefydliadau i ddatblygu a gweithredu eu harferion CDP.

Enghreifftiau o gefnogaeth:

Rhwydwaith CDP y DU **PDP-uk-Network@jiscmail.ac.uk**
(rhwydwaith e-bost ledled y DU ar gyfer ymarferwyr a phobl sy'n gyfrifol am weithredu polisi CDP)

Cylchlythyr bob dau fis i helpu sefydliadau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau

Astudiaethau achos o arferion CDP

Papurau Gwaith sy'n ymdrin â materion datblygu e.e.
e-bortffolios mewn dysgu ôl-16 yn y DU: datblygiadau, materion a chyfleoedd
Ffeiliau cynnydd: ydyn ni'n cyflawni'n targed?

Cyfarfodydd rhanbarthol ledled y DU

Adnoddau'r Academi a allai fod o ddiddordeb i sefydliadau

Canllawiau ar gyfer Academyddion Prysur

www.heacademy.ac.uk/963.htm

1. Cynllunio Datblygiad
2. CDP a Manyleb Rhaglen
3. Defnyddio CDP i helpu myfyrwyr i gael gwaith
4. Dysgu drwy fyfyrio
5. Gwella dysgu myfyrwyr drwy waith gwirfoddol
6. Cysylltu CDP ag anghenion cyflogwyr a byd gwaith

Yn ogystal, mae Canolfannau Pwnc yr Academi bellach yn adeiladu adnoddau penodol i bwnc i gefnogi arferion CDP.

Fodd bynnag, mae cydnabod y newidiadau y mae eu hangen mewn addysgu er mwyn datblygu'r medrau a'r galluoedd hyn, a'r newidiadau y mae eu hangen mewn adborth ac asesu, yn allweddol i ymgorffori'r medrau hyn yn llwyddiannus. Mae'n anodd cyflawni'r newidiadau hyn mewn cyfnod mor fyr.

6. Cyfrwng Cymraeg

Soniwyd am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ym mron pob strategaeth, gyda rhai ohonynt yn croesgyfeirio at eu cynlluniau cyfrwng Cymraeg a'u Cynlluniau Iaith mwy manwl. Yn gyffredinol, nododd sefydliadau eu bwriad i gynyddu niferoedd y myfyrwyr sy'n ymgymryd â rhyw elfen o'u cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg ac, yn y cyd-destun hwn, i adolygu'r ddarpariaeth gyfrwng Gymraeg gyfredol a phennu cyfleoedd ar gyfer datblygiad pellach. Bydd yr Academi'n gweithio gydag CCAUC a'r Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg i bennu ym mha ffyrdd y gall yr Academi gefnogi'r agenda cyfrwng Cymraeg drwy'r Canolfannau Pwnc a gweithgareddau trawsbynciol a datblygu staff.

Mae rhai o'r Canolfannau Pwnc eisoes wedi ymgymryd â gweithgareddau cyfrwng Cymraeg. Er enghraifft, mae Escalate (y Ganolfan Bwnc ar gyfer Addysg) yn cyllido dau brosiect – gweler y ddau flwch isod.

Rhyngwyneb technoleg mynediad Cymraeg: galluogi profiad addysgol llawnach drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer myfyrwyr dall a myfyrwyr â golwg rhannol

Gall pobl ddall a phobl sy'n gweld yn rhannol ddefnyddio systemau cyfrifiadurol drwy ddefnyddio meddalwedd fynediad. Gellir defnyddio'r feddalwedd hon i chwyddo cynnwys sgrin y cyfrifiadur neu gellir ei defnyddio i lefaru'r cynnwys ar sgrin y cyfrifiadur. Mae hyn yn galluogi defnyddwyr dall neu ddefnyddwyr sy'n gweld yn rhannol i ddefnyddio'r e-bost, prosesu geiriau, mynd ar y Rhyngrwyd a defnyddio llawer o becynnau meddalwedd eraill. Caiff myfyrwyr dall sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, neu'r rheiny sy'n astudio'r iaith Gymraeg, sy'n defnyddio allbwn llais fel eu dull o wybod beth sydd ar sgrin y cyfrifiadur eu llesteirio gan feddalwedd mynediad sydd wedi'i hysgrifennu ar gyfer Saesneg yn hytrach na'r Gymraeg.

Defnyddir rhyngwyneb y feddalwedd fynediad i reoli nifer fawr o nodweddion. Yn ogystal, ceir nifer o eitemau o wybodaeth lafar. Caiff y rhain eu llefaru yn Saesneg ar hyn o bryd, ond maent yn anodd eu deall pan gânt eu llefaru gan system allbwn llais Cymraeg a, beth bynnag, mae'n anghydweddol i fod yn dysgu'r Gymraeg neu'n defnyddio cyfrwng y Gymraeg gyda geiriau achlysurol wedi'u llefaru yn Saesneg. Cysylltwch â Dr Janet Pritchard am fwy o fanylion. (**eds068@bangor.ac.uk**)

www.escalate.ac.uk/1505

Addysgu dwyieithog mewn HACA mewn SAUau yng Nghymru

Caiff cyrsiau mewn HACA (hyfforddiant cychwynnol i athrawon) yng Nghymru eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r prosiect hwn yn archwilio'r cwmpas ar gyfer darparu cyrsiau o'r fath yn ddwyieithog. Mae'n adeiladu ar waith a ddatblygwyd yng Nghanolfan Bedwyr (canolfan ymchwil a datblygiad ym Mhrifysgol Cymru, Bangor) i ddwyieithrwydd mewn addysg yng Nghymru. Yn benodol, bydd y prosiect yn galluogi rhannu arferion da a datblygu modelau priodol ar gyfer darpariaeth ddwyieithog yn y sector.

Bydd canlyniadau disgwyliedig y fenter yn cynnwys adroddiad o'r profiadau a rennir gan y sefydliadau sy'n ymwneud â llunio llyfryn dwyieithog (Cymraeg a Saesneg), ynghyd â'u hamgyffrediadau o arferion da cytûn.

www.escalate.ac.uk/resources/bilingualitetwales

7. e-Ddysgu

Tuedd arwyddocaol yw crynodiad adnoddau tuag at e-ddysgu. Mae nifer gynyddol o sefydliadau'n buddsoddi mewn gweithredu amgylchedd dysgu rhithwir (VLE). Mae hyn yn cynnwys datblygu VLE neu ddefnyddio llwyfan sy'n bodoli eisoes fel Blackboard. Roedd un sefydliad yn awyddus i ddatblygu ei VLE i gynnwys myfyrwyr o'r gymuned wledig. Hefyd, roedd ffocws ar ddysgu cymysg a defnyddio technoleg er effeithlonrwydd. Weithiau, nid yw'r modd y cyflawnir enillion effeithlonrwydd yn glir, ac yn y mwyafrif o achosion bydd angen dadansoddi'r manteision a'r gost. Ledled y DU, mae sefydliadau'n ail-ddylunio lle mewn cysylltiad ag e-ddysgu. Mae cyd brosiect Pwyllgor Systemau Gwybodaeth yn edrych ar y modd y mae technolegau arloesol yn dylanwadu ar gynllun mannau dysgu ffisegol yn y sector ôl-16 (**www.ldu.bham.ac.uk/espaces/**).

Astudiaeth i sut mae technolegau arloesol yn dylanwadu ar gynllun mannau dysgu ffisegol yn y sector ôl-16

Mae Prifysgol Birmingham wedi derbyn cyllid JISC o dan Raglen e-Ddysgu JISC, **www.jisc.ac.uk/elearning_innovation.html** i adrodd am y ffyrdd y mae technolegau dysgu yn dylanwadu ar gynllun mannau dysgu ffisegol mewn sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch.

Gwahoddwyd yr holl brifysgolion, sefydliadau addysg uwch, colegau addysg bellach a cholegau chweched dosbarth i gyfrannu at y prosiect trwy lenwi arolwg. Anfonwyd copi caled o'r arolwg hwn at dimau uwch reoli er mwyn iddyn nhw ei drosglwyddo i'r person fwyaf priodol. Roedd y copi caled yn bennaf er gwybodaeth, gan fod yn well gennym fersiwn electronig o'r arolwg, gydag unrhyw wybodaeth ychwanegol yn cael ei chynnwys mewn e-bost.

Bydd yr adroddiad terfynol ar gael ar wefan y prosiect.

Rheolwr y Prosiect: Steve Hewett

Roedd dysgu cymysg hefyd yn cael ei archwilio. Roedd un sefydliad yn ceisio trefnu bod pob rhaglen ar gael ym mhob dull astudio trwy gynhyrchu deunyddiau dysgu agored a'i gwneud yn haws i fyfyrwyr drosglwyddo o un dull astudio i'r llall. Roeddent hefyd yn mabwysiadu llwyfan sengl ar gyfer cynnig rhaglenni dysgu o bell. Mae gan y Ganolfan Bwnc Economeg bennod newydd yn ei llawlyfr i ddarlithwyr economeg o dan y teitl "Cyfathrebu ar-lein trwy ddefnyddio byrddau trafod", gyda manylion yn:
www.economicsnetwork.ac.uk/handbook/discussionboards/

Un ffordd o ddefnyddio'r dechnoleg i wella dysgu ac addysgu oedd trwy gyfundrefn adnabyddiaeth systematig a lledaeniad arfer da, gan gynnwys gwefan arfer da dysgu ac addysgu/QE â chysylltiadau â chyfleusterau trafod ar-lein yn Blackboard. Mae hyn yn cynnwys adborth gan arholwyr allanol ac ASA (Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd). Hefyd, bydd un Ganolfan e-Ddysgu yn datblygu cyfundrefnau ymhellach i gynhyrchu deunyddiau e-ddysgu a rhyngwynebau cymorth i ddysgwyr enghreifftiol. Mae adnoddau ychwanegol i gefnogi e-ddysgu ar gael yn: **www.heacademy.ac.uk/e-learning**.htm ac maent yn cynnwys pum arweiniad i Uwch Reolwyr, Penaethiaid Adrannau, Staff Addysgu, Technolegwyr Dysgu a Staff Cymorth yn y drefn honno.

Cefnogi e-ddysgu cynaliadwy

www.heacademy.ac.uk/SSeLF.htm

Mae'r Fforwm Cefnogi e-Ddysgu Cynaliadwy yn dod ag ystod o staff ynghyd o gymuned addysg uwch ac addysg bellach y DU i ledaenu arfer da a hwyluso trafod materion perthnasol. Mae cyflwyniadau o ddigwyddiadau blaenorol SSeLF a manylion am ddigwyddiadau 2005 ar gael trwy ddilyn y cyswllt uchod.

Fodd bynnag, mae'r datblygiadau hyn yn gofyn am ymrwymiad adnoddau ac i staff gyfranogi drwy weithgareddau datblygu staff. Mae i hyn oblygiadau datblygu staff a'r gofyniad i ryddhau amser er mwyn galluogi staff i fynychu gweithdai. Roedd y mwyafrif o sefydliadau wedi dyrannu adnoddau i'r maes hwn.

8. Cydraddoldeb, amrywiaeth a chymorth i fyfyrwyr

Tuedd gadarnhaol iawn a welir mewn strategaethau Dysgu ac Addysgu yw ymrwymiad sefydliadau i gefnogi amrywiaeth ym mhoblogaeth y myfyrwyr. Mae'n amlwg bod gan y gwaith hwn gysylltiadau cryf â gwaith yr Uned Herio Cydraddoldeb (UHC). Mae rhai sefydliadau wedi dewis canolbwyntio'n benodol ar fecanweithiau cymorth i fyfyrwyr ag anableddau, gyda pherthynas a ddiffinnir yn dda rhwng cymorth i fyfyrwyr a datblygiad staff. Roedd sefydliadau hefyd yn hyblyg ynghylch gofynion cymorth trwy gynnig cymorth dyslecsia a chymorth astudio gyda'r nos i fyfyrwyr rhan amser. Roedd yr offer a'r feddalwedd yn cael eu gwella i gefnogi amgylchedd dysgu myfyrwyr ag anableddau ymhellach. Roedd rhai sefydliadau'n canolbwyntio ar adolygu'r broses sefydlu, cadw myfyrwyr a sgiliau gyrfaol.

Tuedd arall a welwyd yw integreiddio gwaith cymorth academyddion a gwasanaethau cymorth; roedd nifer o sefydliadau'n adolygu gwasanaethau cymorth canolog yn ogystal â sut y gallent wella eu rôl a gweithio'n fwy cydlynol ar draws y sefydliad. Mae un sefydliad am wella'r modd y mae'n cael barn myfyrwyr, ac i gyflawni hyn â chydlyniad gwell ar draws y Brifysgol. Mae hefyd yn bwriadu cryfhau'r ffyrdd y rhoddir adborth i fyfyrwyr ynghylch y modd y mae'r sefydliad wedi ymateb i'w buddiannau a'u pryderon. Yn ddiweddar, penodwyd cymodwr myfyrwyr ar lefel uwch i gynorthwyo â datrys problemau sy'n codi o bryd i'w gilydd. Y nod yw cynnig dangosyddion newid tuag at y profiad gorau posibl i fyfyrwyr. Gellir lawrlwytho adnoddau i gefnogi cyfranogiad cynyddol yn: **www.heacademy.ac.uk/199.htm**

Tuedd arall yw gwella'r amgylchedd ffisegol, a chydnabod y gall hyn gael effaith gadarnhaol ar fyfyrwyr a'u dysgu. Er enghraifft, roedd un sefydliad yn adolygu ei strategaeth rheoli ystadau, ac yn ddiweddar sefydlodd Bwyllgor Datblygu Ystadau newydd. Yn benodol, mae'r brifysgol yn ymgymryd ag adolygiad sylfaenol o dirwedd y campws, â'r diben o wella'r amgylchedd, a gwella'r cyfleusterau a'r campws i staff a myfyrwyr allu gwella'r amgylchedd i'r rheiny sy'n anabl.

Roedd yn galonogol gweld nifer y sefydliadau a oedd am wrando ar lais myfyrwyr drwy eu cynnwys mewn gweithdai staff a myfyrwyr ar y cyd, a holiaduron ar draws y campws. Roedd rhai sefydliadau am ddarganfod pa fath o gefnogaeth roedd ei hangen ar fyfyrwyr, tra bod eraill am gynnal archwiliadau o anghenion sgiliau myfyrwyr. Yna, bydd y methodolegau amrywiol hyn yn cynnig gwybodaeth sy'n caniatáu canolbwyntio adnoddau yn y meysydd gofynnol. Byddai'n ddefnyddiol rhannu cynnwys rhai o'r holiaduron hyn, nid yn unig i arbed amser, ond hefyd i rannu a meincnodi canlyniadau. Yna, gallai sefydliadau roi'r holiaduron hyn mewn cyd-destunau fel y bo'n briodol.

Adnoddau'r Academi a allai fod o ddiddordeb i sefydliadau

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Gyda chyfranogiad ehangach ceir heriau o ran cyfiawnder i grwpiau amrywiol o fyfyrwyr. Ond y duedd yw bod arferion addysgu a dysgu da yn dda i bob myfyriwr, felly wrth i ni geisio gwella ein harferion i rai, dylai bawb fod ar eu helw. Arweiniwyd un prosiect a oedd yn ceisio gwella ansawdd dysgu myfyrwyr anabl gan Mary Fuller ym Mhrifysgol Swydd Gaerloyw: 'Ceisio cydraddoldeb o ran profiad dysgu'.

Ateb yr Her: Rheoli Cydraddoldeb ac Amrywiaeth mewn Addysg Uwch

Datblygwyd pecyn adnoddau Ateb yr Her gan Brifysgol Coventry a Phrifysgol Warwick, gyda chyllid gan Gronfa Arfer Rheolaeth Dda HEFCE. Nod y pecyn, sy'n cynnwys ffilm a llyfryn i fynd gyda hi, yw codi ymwybyddiaeth a symbylu trafod materion cydraddoldeb ac amrywiaeth staff. Arweinydd y prosiect: Karen Ross

'Ehangu Cyfranogiad: Mynediad Aeddfed i Addysg Uwch Amser Llawn yn y DU'

Mae'r erthygl hon, gan Stella Green o UCAS, yn archwilio'n gryno data a gasglwyd gan UCAS oddi wrth ymgeiswyr llwyddiannus y DU am addysg uwch israddedig amser llawn - gan ganolbwyntio'n benodol ar fyfyrwyr aeddfed - i archwilio i ba raddau mae mynediad i addysg uwch yn ehangu mewn gwirionedd.

9. Staff a datblygiad proffesiynol, gan gynnwys gwella addysgu trwy ymchwil ac ysgolheictod

Mae tuedd i gefnogi datblygiad proffesiynol yr holl staff sy'n cefnogi dysgu myfyrwyr. Mae maes ymledol sy'n datblygu ysgolheictod dysgu ac addysgu neu ymchwil addysgol. Mae hon yn ffordd arwyddocaol o gasglu arferion ar sail tystiolaeth, a gallai wneud cyfraniad real gwirioneddol at werthusiad effeithiolrwydd y strategaeth dysgu ac addysgu.

Mae rhai Sefydliadau Addysg Uwch yn archwilio'r berthynas rhwng addysgu ac ymchwil. Mae hyn yn cynnwys peri bod manteision cryfderau ymchwil yn fwy amlwg i addysgu israddedigion a dod ag elfennau addysgu ag ymchwil yn agosach at ei gilydd. Mae un sefydliad yn cynnig y dylai'r Panel Dysgu ac Addysgu, mewn ymgynghoriad ag ysgolion, geisio egluro nodweddion dysgu ac addysgu a arweinir gan ymchwil, ac archwilio sut y gellir cryfhau hyn o fewn y cyd-destunau disgyblaethol gwahanol. Yn ei dro, dylid ymgorffori hyn mewn dysgu, addysgu a strategaethau asesu ysgolion. Mae nifer o adnoddau'r Academi sy'n berthnasol i'r maes hwn, gan gynnwys 'A Guide to the Research Evidence on Teaching-Research Relations' a 'Linking Research and Teaching in Departments'.
www.heacademy.ac.uk/resources.asp?section=generic&process=filter_fields&type=all&id=20&history=

Prosiect FDTL ynghylch Cysylltu Addysg ag Ymchwil mewn Cynllunio, Rheoli Tir ac Eiddo, ac Adeiladu ym Mhrifysgol Brookes, Rhydychen

www.brookes.ac.uk/schools/planning/LTRC/

Mae'r prosiect hwn yn nodi, yn datblygu ac yn lledaenu arfer da trwy gysylltu addysgu ag ymchwil ac ymgynghori mewn cynllunio gwlad a thref, rheoli tir ac eiddo, ac adeiladu. Mae'n gwella synergedd ymchwil ac addysgu mewn tair disgyblaeth a rhyngddynt, ac yn atgyfnerthu darganfyddiadau testunau penodol o fewn adrannau'r consortiwm. Mae'r prosiect yn gwella strategaethau dysgu ac addysgu sefydliadol ac yn sicrhau cynaladwyedd hirdymor.

Nod un sefydliad yw sefydlu sylfaen wybodaeth o weithgarwch ymchwil ac ysgolheigaidd presennol a lledaenu'r wybodaeth ymysg staff academaidd. Yn ychwanegol, mae am ledaenu'r wybodaeth am ymchwil perthnasol a ddarperir gan Palatine, y Ganolfan Bwnc ar gyfer Dawns, Drama a Cherddoriaeth.

Defnyddir ysgolheictod ac ymchwil mewn nifer o sefydliadau fel modd o wella addysgu. Tuedd ddiddorol yw cael Canolfan a enwir i gefnogi'r agwedd hon ar y gwaith. Mae un sefydliad yn datblygu Canolfan ar gyfer Ymchwil Addysgol i gefnogi ac annog ymchwil addysgol disgyblaeth a generig ill dau. Mae gan sefydliad arall Sefydliad Ymchwil dros Hybu Dysgu o fewn yr Ysgol Addysg sy'n cefnogi ymchwil i mewn i addysgu. Mae trydydd sefydliad yn sefydlu Canolfan Ragoriaeth dros Ddatblygiad Dysgu. Bydd y Ganolfan newydd hon yn ymgorffori, yn cyd-drefnu ac yn datblygu ymhellach tair cainc rhagoriaeth sy'n bodoli eisoes, ar ffurf Swyddfa Dysgu ac Addysgu, y Ganolfan e-Ddysgu Ryngwladol ac Ymchwil a Gwerthuso Addysgol AU.

Dymunai sefydliadau eraill:

- *Annog ymchwil i addysg a arweinir gan addysgeg ac ymchwil a'i ledaenu'n gyhoeddus yn fewnol ac yn allanol*
- *Datblygu, ar y cyd â grwpiau allanol priodol, gan gynnwys yr Academi, clystyrau testun a disgyblaeth-benodol i ymchwilio a datblygu agweddau allweddol ar y cwricwlwm*
- *Cynnig y dylai'r Panel Dysgu ac Addysgu, mewn ymgynghoriad ag ysgolion, geisio egluro nodweddion dysgu ac addysgu a arweinir gan ymchwil ac archwilio sut y gellir cryfhau hyn o fewn y cyd-destunau disgyblaethol gwahanol. Yn ei dro, dylid ymgorffori hyn mewn dysgu, addysgu a strategaethau asesu ysgolion.*

Dulliau eraill o ddatblygu ysgolheictod yw trwy ariannu prosiectau ymchwil i agweddau ar ddysgu ac addysgu ac ariannu presenoldeb mewn cynadleddau. Efallai yr hoffai sefydliadau feddwl am ddulliau ychwanegol o ddatblygu ysgolheictod dysgu ac addysgu hefyd, fel ariannu cynorthwywyr ymchwil i gynnal a gwerthuso ymchwil ynghylch gweithgareddau datblygiadol fel rhan o strategaeth dysgu ac addysgu, sefydlu Cymrodoriaethau Addysgu i gynnal ymchwil addysgol a chydweithio ategol â sefydliadau sy'n canolbwyntio ar ymchwil. Efallai y bydd y gwaith hwn yn gwneud gweithgareddau datblygu staff yn ofynnol i wella sgiliau ymchwil.

Rhoddwyd pwyslais amlwg ar gefnogi staff newydd a staff profiadol fel ei gilydd. Soniai'r mwyafrif o sefydliadau'n benodol am y rhaglenni a achredwyd gan yr Academi ar gyfer staff newydd. Soniodd rhai sefydliadau am hyfforddiant ymchwil i fyfyrwyr ôl-raddedig a datblygu sgiliau ymchwil israddedigion/ôl-raddedigion. Mewn 50% o sefydliadau, roedd y drefn lle'r oedd cyfoedion yn arsylwi ar addysgu yn cael ei datblygu, a gwelir hyn fel ffordd werthfawr o rannu arferion effeithiol. Efallai y bydd sefydliadau'n dymuno meddwl am estyn arsylwi gan gyfoedion i alluogi staff o un maes disgyblaeth i oruchwylio addysgu mewn maes disgyblaeth hollol wahanol, neu i sefydliadau cymdogol arsylwi ar ddysgeidiaeth ei gilydd.

Adnoddau'r Academi a allai fod o ddiddordeb i sefydliadau

Cyfoedion yn arsylwi ar addysgu (POT)

www.heacademy.ac.uk/988.htm

Gwneir defnydd cynyddol o gyfoedion yn arsylwi ar addysgu mewn addysg uwch yn y DU er mwyn gwella arferion dysgu ac addysgu ac ymateb yn gadarnhaol i adolygiadau allanol. Adroddwyd manteision gan gyfranogwyr amharod hyd yn oed, gan gynnwys newidiadau cynyddol o ganlyniad i adborth adeiladol gan gydweithwyr yr ymddiriedir ynddynt a thechnegau newydd a addaswyd ar ôl arsylwi ar eraill. Yn bwysicach, mae tystiolaeth bod trafod cyd-arsylwi ar addysgu wedi annog addysgu adlewyrchol, ac efallai y bydd hyn yn ffurfio rhan o gynlluniau Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) tymor hwy.

Mae'r Academi Addysg Uwch wedi nodi ystod o fodelau datblygiadol POT a ddefnyddir mewn addysg uwch yn y DU ac yn rhyngwladol. Gellir dod o hyd i'r rhain ac adnoddau pellach ynghylch POT yn adran Adnoddau POT gwefan yr Academi. Caiff tair enghraifft eu cynnwys:

Adalw'r Broses Addysgu
Pario Cyfoedion
Rhannu Rhagoriaeth

Gallwch ymweld â Chanolfan Pwnc Addysg yr Academi Addysg Uwch (ESCALATE) hefyd sy'n cyflwyno modelau sy'n cynnwys samplo a phaneli allanol. Mae hefyd yn ceisio dod ag arweiniad cyffredinol a chyngor at ddibenion datblygiadol ynghyd a'u syntheseiddio.

Rhoddwyd pwys mawr ar y ffyrdd amrywiol o annog datblygiad staff. Nid yw hyn yn syndod o ystyried y ddadl yn y DU ynghylch safonau proffesiynol, a dylid croesawu'r pwyslais hwn. Roedd gan un sefydliad amcan penodol i:

- *Ddatblygu sgiliau staff academaidd a staff cymorth trwy gynnig cyfleoedd datblygu sy'n hyrwyddo datblygiad proffesiynol, rhannu arferion da ac ymchwil i ddatblygiad dysgu ac addysgu.*

I egluro'r amrywiaeth hon, rhestrodd un sefydliad nifer o ddatblygiadau penodol a oedd yn cynnwys:

- *Parhau i ddatblygu addysg i staff prawf mewn rhaglen addysg uwch*
- *Datblygiad staff adrannol ar sail anghenion*

- *Datblygu rhaglen Arweinyddiaeth Addysgu i staff sydd ynghanol eu gyrfaoedd*
- *Cynnig cymorth a chyngor i staff mewn meysydd addysgol a thechnegol e.e. IS ar gyfer e-ddysgu*
- *Cyfoedion yn arsylwi ar addysgu*
- *Digwyddiad arloesiadau addysgu a dysgu ac arfer gorau*
- *Lle a chaniatâd i drafod / rhannu materion addysgu a dysgu*
- *Cymrodoriaeth Addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg*
- *Gwerthuso gweithrediad cynlluniau Cymrodoriaeth Addysgu mewnol.*

Er gwaethaf gwerth gweithdai, cynadleddau a mathau eraill o ddigwyddiadau, gellir tanbrisio'r math o brofiadau datblygiadol a gaiff ei integreiddio â gweithgareddau bob dydd (fel arholi allanol, bod ar banel dilysu). Yn yr ymgynghoriad cenedlaethol ar safonau proffesiynol, adroddodd un Sefydliad Addysg Uwch yn yr Alban ei fod wedi addasu ei strategaeth Dysgu ac Addysgu i roi mwy o sylw ac i gydnabod y math hwn o weithgarwch.

Mae'r tabl isod yn dangos amrywiaeth y ffyrdd y mae sefydliadau yng Nghymru (a restrir yma fel 1 – 12) yn cefnogi ac yn datblygu staff fel yr adroddir yn eu strategaeth.

	1	2	3	4	5	6	7	8	9	10	11	12
Cefnogaeth i staff newydd	√	√	√	√	√		√	√	√		√	√
Cefnogaeth i ôl-raddedigion	√		√					√	√			
Gweithgareddau ar sail adrannau		√	√	√			√	√	√	√	√	
Cefnogaeth i staff ynghanol eu gyrfa/staff profiadol		√			√	√	√		√	√		√
e-ddysgu		√	√	√	√	√		√	√	√	√	√
Arsylwi gan gyfoedion	√			√	√				√			√
Cronfa arloesed			√	√	√	√						√
Cymrodoriaeth Addysgu/ Cydlynwyr Addysgu Dysgu/ Pleidwyr		√						√				
Datblygu/adolygu rhaglenni Datbly staff	√	√			√	√	√	√	√	√	√	√
Gwella neu estyn gweithgareddau lledaenu	√	√	√		√	√	√	√	√	√	√	√
Hyrwyddo cysylltiadau â'r Academi/achrediad	√		√	√	√		√	√	√	√	√	
Cefnogaeth i Addysgu arloesol		√		√	√		√	√	√		√	

Byddai ystod y gweithgareddau ar gyfer gwella profiadau myfyrwyr yn awgrymu bod agenda eang ar gyfer hyfforddiant addysgol, er enghraifft, ym meysydd cynllunio datblygiad personol, dysgu cymysg, cyflogadwyedd a sgiliau entrepreneuraidd. Bwriad rhai sefydliadau yw cefnogi staff academaidd yn eu hymdrechion i wella dysgu ac addysgu trwy ddarparu cyllid i gefnogi arloesed. Tuedd arall yw sefydlu ystod o fforymau i hwyluso cyfnewid syniadau ac arferion arloesol i'w lledaenu i'r gymuned academaidd ehangach.

Mae rhai sefydliadau'n sefydlu'r rhaglen ôl-raddedig i staff newydd fel rhan orfodol o'u cyfnod prawf drwy, er enghraifft, gysylltu'r rhaglen â'r cytundeb prawf. Mae un Tystysgrif Ôl-raddedig yn cael ei datblygu erbyn hyn fel rhaglen e-ddysgu ar gyfer addysgwyr nyrsys yng

nghymunedau gwledig Cymru. Mae safle mewnrwyd yn cael ei ddatblygu i gynnwys cymorth e-ddysgu ar gyfer DPP staff ac i gynorthwyo dosbarthu'r rhaglen DPP i Ôl-raddedigion.

Cyfeiriodd nifer o sefydliadau at yr Academi Addysg Uwch a'i Chanolfannau Pwnc gyda'r bwriad amlwg o fagu cysylltiadau cryf. Cyfeiriodd un sefydliad at brosiect ymchwil ar y cyd a oedd wedi cael nawdd gan Ganolfan Bwnc. Achredir llawer o'r rhaglenni yng Nghymru i gefnogi staff newydd gan yr Academi, neu maent yn y broses o gael eu hachredu.

Tuedd gadarnhaol oedd cynnwys rôl staff cymorth yn y strategaeth: Er enghraifft, soniwyd am rôl y staff gyrfaoedd mewn perthynas â strategaethau cyflogadwyedd, staff technegol a gwybodaeth mewn perthynas ag e-ddysgu, ac mewn un sefydliad roedd hi'n flaenoriaeth allweddol cydnabod a gwobrwyo staff academaidd a chymorth. Nododd un arall ei bod hi'n flaenoriaeth bwysig codi ymwybyddiaeth ymysg staff ac i gynnwys myfyrwyr mewn gweithgareddau gweithdai.

Mewn sefydliad arall mae staff cymorth (Gwasanaethau Gwybodaeth Llyfrgell, Swyddog Ansawdd, Technolegwyr Addysgu, Gyrfaoedd, Uned Datblygu Staff, Adran Ystadau, Gwasanaethau Cyfryngau, Adran Cymorth i Fyfyrwyr) yn chwarae rhan allweddol ac yn cael eu hintegreiddio i'r cynllun gweithredu. Mae tystiolaeth o Awstralia yn dangos pan gaiff pob categori staff eu cynnwys yn gydweithredol mewn cefnogi profiad dysgu myfyrwyr, mae myfyrwyr yn teimlo eu bod yn cael mwy o gefnogaeth ac mae cadw myfyrwyr blwyddyn gyntaf yn cynyddu. Mae hyn yn enwedig o wir pan gaiff y broses sefydlu ei chynllunio a'i chyflwyno gan grwpiau o staff sy'n cynrychioli categorïau gwahanol ar draws sefydliad, a phan gyflwynir y broses sefydlu dros gyfnod hwy.

10. Cydnabyddiaeth a gwobrwyo

Mae cydnabod a gwobrwyo staff yn ffordd allweddol o wella statws dysgu ac addysgu. Un o'r dulliau cryfaf o gydnabod gwerth addysgu yw sicrhau bod staff newydd yn gwerthfawrogi addysgu ac yn dangos potensial fel athrawon rhagorol.

Tuedd gynyddol yw i Sefydliadau Addysg Uwch amlygu cydnabod a gwobrwyo staff. Cyfeiriwyd at wobrau addysgu enwog fel un ffordd o wobrwyo staff. Mae sefydliadau hefyd yn trefnu bod cronfeydd datblygiad mewnol ar gael, gyda'r unigolion sy'n cymell y fath brosiectau'n derbyn cyngor ac arweiniad parhaus ac yn cael help i ledaenu eu prosiectau ar draws y brifysgol. Gall cynhadledd flynyddol arddangos arferion arloesol a rhagorol. Mewn sefydliad arall, dyfernir gwobrau Cymrodoriaeth Addysgu Sefydliadol yn flynyddol.

Mae cyfle go iawn yn y maes hwn i sefydliadau fod yn greadigol wrth ddatblygu ystod o fecanweithiau i gydnabod a gwobrwyo arferion da. Gallai'r rhain gynnwys y canlynol:

- Newid meini prawf dyrchafiad i gynnwys addysgu
- Caniatáu i ragoriaeth addysgu fod yr unig faen prawf ar gyfer dyrchafiad o dan rai amgylchiadau
- Datblygu gallu staff i gasglu a chynnig tystiolaeth mewn portffolios addysgu
- Datblygu soffistigedigrwydd paneli dyrchafu wrth farnu tystiolaeth am addysgu
- Ystyried cymhwysedd addysgu mewn cyfweliadau a phenodiadau
- Pwysleisio addysgu mewn ffurflenni cais
- Gofyn i fyfyrwyr enwebu athro rhagorol
- Peri bod cymhwysedd addysgu yn ofyniad ar gyfer cyfnod prawf
- Cynnal adolygiadau sy'n canolbwyntio ar addysgu
- Cyflwyno cyfleoedd dyrchafiad ar sail addysgu, fel Darllenyddiaethau a Chadeiriau Athrawon sy'n pwysleisio cyraeddiadau addysgu
- Dyfarniadau a gwobrau addysgu
- Derbyn teitlau am flwyddyn
- Tâl ychwanegol neu godiadau cyflog
- Cyhoeddusrwydd, digwyddiadau a chynadleddau sy'n arddangos rhagoriaeth
- Teitlau fel 'Cymrodor Addysgu' a 'Chydlynydd Addysgu'. Efallai y bydd y teitlau hyn am amser penodol gan ganolbwyntio ar brosiect penodol
- Anogaeth, cymorth ymarferol ac ariannol i ysgrifennu ar gyfer cyhoeddi
- Cymorth ariannol i fynychu cynadleddau yn y DU a thramor
- Cyllid i dîm cwrs ddatblygu agwedd ar addysgu arloesol
- Cymorth ariannol i dîm cwrs alluogi tîm cwrs arall i sefydlu arloesed

Yng nghyhoeddiad y Brifysgol Agored, "*Recognising and Rewarding Excellent Teaching*", rhestrir pum ymagwedd i gydnabod a gwobrwyo gan Gibbs a Habeshaw (2003):

1. Cydnabod addysgu mewn penodiadau a phrofiannaeth prawf

    a. Cydnabyddiaeth trwy fecanweithiau penodi, pwysleisio addysgu mewn
        i. hysbysebion a manylebau swyddi
        ii. ffurflenni cais
        iii. gweithdrefnau dethol
    b. Cydnabyddiaeth trwy fecanweithiau profiannaeth
        i. Gofyn am gymwysterau neu aelodaeth ILT ar gyfer profiannaeth
        ii. Adolygiad neu werthusiad ar sail addysgu ar gyfer profiannaeth

2. Gwobrwyo trwy ddyrchafiad a thâl

    a. Gwobrwyo trwy ddyrchafiad
        i. Meini prawf eglur
        ii. Meini prawf gwahanol ar gyfer lefelau dyrchafiad gwahanol
        iii. Gofynion newydd ar gyfer cyflwyno tystiolaeth am addysgu

iv. Cyfoedion yn adolygu addysgu cyn ystyried y dystiolaeth gan banel dyrchafiadau
v. Datblygu dyfarniadau aelodau'r panel dyrchafiadau
vi. Mecanwaith ar gyfer cloriannu'r pwyslais a roddir ar ragoriaeth mewn addysgu ac ymchwil
vii. Mynnu tystiolaeth o addysgu ar gyfer pob dyrchafiad

b. Gwobrwyo trwy gynyddu tâl
c. Gwobrwyo trwy greu llwybrau gyrfaoedd ar sail addysgu
d. Llwybrau gyrfaoedd addysgu ac ymchwil cyfochrog
e. Uwch swyddi newydd ar sail addysgu

3. Cydnabyddiaeth a statws cynyddol trwy ddyfarniadau a theitlau

a. Gwobrau a dyfarniadau addysgu
b. Teitlau

4. Cydnabyddiaeth drwy rolau newydd sy'n gysylltiedig ag addysgu

a. Rolau datblygu addysgu
b. Cydnabod gweithgareddau datblygu addysgu mewn dyraniadau dyletswydd
c. Cyllid ar gyfer arwain prosiectau datblygu
d. Aelodaeth o dimau datblygu ar draws y sefydliad
e. Aelodaeth o 'Academïau Addysgu'

5. Cydnabyddiaeth a gwobrau i staff sy'n gysylltiedig ag addysgu

Gall cydnabod a gwobrwyo rhagoriaeth mewn addysgu wneud cryn dipyn i ymdrin â'r anghydbwysedd rhwng addysgu ac ymchwil. Mae'n amlwg bod y mater hwn ar agenda nifer o sefydliadau, a gallai rhannu ychydig o arferion effeithiol gryfhau'r agwedd hon ar y strategaeth Dysgu ac Addysgu.

11. Lledaenu a sefydlu arferion effeithiol

Gellir lledaenu mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Er enghraifft, gellir ysgrifennu am waith ar gyfer newyddlenni mewnol neu ei gyflwyno mewn seminarau cyfadrannau, digwyddiadau amser cinio neu Gynadleddau Dysgu ac Addysgu sefydliadol. Mae un sefydliad yn cynnal tair cynhadledd i'r staff cyfan bob blwyddyn. Mae rhai sefydliadau yn y DU yn cynhyrchu llyfrynnau trawiadol am arloesiadau, ond nid yw'n eglur bob tro sut y mae'r rhain yn effeithio ar ddysgu myfyrwyr neu sut maent yn dwyn perswâd ar eraill i integreiddio'r arferion maent yn eu datblygu i'w harferion hwy.

Gall lledaenu gynnwys tri chyfnod

- **Lledaenu ymwybyddiaeth**. Dyma lle gall staff eraill ddod i wybod am yr arloesiad neu'r arfer. Gellir gwneud hyn trwy ddarllen astudiaeth achos neu erthygl neu drwy wrando ar gyflwyniad. Nid yw'n arwain yn awtomatig at fabwysiadu'r arfer gan gydweithwyr neu dimau cwrs.

- **Lledaenu dealltwriaeth**. Dyma lle mae'r staff yn dod i ddeall yr hyn sy'n gysylltiedig â'r arloesiad, a gallant farnu sut y gallai hyn weithio yn eu cyd-destun nhw a chyda'u grŵp nhw o fyfyrwyr. Efallai y bydd hyn yn cynnwys ymwneud yn weithredol â gweithdy, neu ymweld â chydweithiwr neu weld yr arloesiad ar waith.

- **Lledaenu defnydd.** Yma, mae'r person yn mabwysiadu'r arloesiad ac yn ei addasu ar gyfer ei ddefnydd a'i gwrs ei hunan. Efallai y bydd angen cefnogaeth eraill, er enghraifft, drwy Grŵp Diddordeb Arbennig (GDA) neu rwydwaith rhithwir. Efallai y bydd yn ofynnol i'r person ddatblygu sgiliau newydd hefyd. Y cyfnod olaf hwn yw'r anoddaf i'w gyflawni, ond mae'n gyfnod sy'n cael effaith fwy parhaol. (Gibbs, Holmes a Segal, 2003)

Mae un sefydliad yn honni y rhoddir blaenoriaeth uchel i ledaenu arfer da trwy fecanweithiau fel cyfoedion yn adolygu addysgu, digwyddiadau yn yr ysgol, a chynhadledd undydd Dysgu ac Addysgu. Targedir cronfa ddatblygu addysgu a dysgu ar gyfer datblygu'r gynhadledd Dysgu ac Addysgu, cefnogi'r strategaeth cadw myfyrwyr, cefnogi gweithredu'r MLE, sefydlu rôl y 'Pencampwyr' Dysgu ac Addysgu mewn ysgolion, a hyrwyddo anghenion penodol ysgolion. Mae'r sefydliad yn annog staff cymorth i gymryd rhan weithgar mewn dyfeisio prosiectau ymchwil addysgol, cyflwyno papurau mewn cynadleddau a lledaenu canlyniadau cyhoeddedig.

Mae trosglwyddo arferion arloesol a ddatblygwyd mewn un cyd-destun i gyd-destun arall yn fater heriol, ond tuedda'r holl enghreifftiau a restrir i ganolbwyntio ar ledaenu mewnol ar lefelau sefydliadol a chyfadrannol ill dwy. Y gobaith yw y gall Cynhadledd Strategaethau Cymru yr Academi, y bwriedir ei chynnal yn ystod hydref 2005, fod yn un mecanwaith ar gyfer gwella lledaenu rhwng ac ar draws sefydliadau yng Nghymru, ac ar gyfer rhannu enghreifftiau llwyddiannus o sut y cyflawnwyd y fath drosglwyddiadau.

12. Monitro a gwerthuso

Gall mecanweithiau monitro a gwerthuso helpu sefydliadau i ddadansoddi effeithiolrwydd y strategaeth dysgu ac addysgu. Roedd tystiolaeth o fonitro yn y strategaethau, ac yn y mwyafrif o achosion rhoddwyd targedau clir y gellir mesur cynnydd yn eu herbyn. Soniwyd am gyfrifoldebau penodol a'u dyrannu i bwyllgor, rôl neu berson a enwyd. Mae cerrig milltir o gymorth os bydd gweithgareddau yn cael eu lledaenu ar draws cyfnod penodol. Roedd gan y mwyafrif o sefydliadau Bwyllgor Dysgu ac Addysgu neu gorff cyfatebol a chanddo rôl allweddol mewn monitro, gydag uwch aelod o staff yn cadeirio'r pwyllgor. Cynhaliai rhai sefydliadau fonitro trwy gydol y flwyddyn, gan adrodd yn ôl mewn dull ffurfiannol.

Mae un sefydliad yn cynnwys undebau staff wrth gynllunio a gweithredu'r polisïau hyn. Maent hefyd yn cynnwys rhanddeiliaid allanol mewn datblygu polisïau a phrosesau, ac yn ystyried profiadau mewn sectorau eraill. Dylid croesawu cynnwys y rhanddeiliaid allanol hyn, a byddai'n ddefnyddiol i sefydliadau eraill fabwysiadu'r arfer hwn.

Yn aml, cyfunir monitro a gwerthuso. Er hynny, maent yn brosesau gwahanol iawn. Gall monitro fod yn broses gymharol hawdd, y dasg anoddaf yw'r modd y defnyddir y wybodaeth honno a'i bwydo yn ôl i lywio cynllunio yn y dyfodol. Dim ond ychydig o sefydliadau a soniodd am werthuso a'i effaith ar ddysgu myfyrwyr. Amlygodd un sefydliad o'r fath ei ymrwymiad i ymchwil sefydliadol ond nid oedd yn eglur sut mae dysgu wedyn yn gysylltiedig â gwneud penderfyniadau. Dynodai sefydliad arall ei fod am gymharu ei berfformiad trwy glwb meincnodi cyfoedion. Nid peth hawdd yw dangos yr effaith ar ddysgu myfyrwyr, gan fod ffactorau lluosog yn rhyngweithio mewn ffyrdd gwahanol. Ymddangosai sefydliadau yn amharod i gyfaddef lle nodwyd meysydd lle'r oedd gwendid, ond mae iechyd ein system addysg yn dibynnu ar ddiwylliant beirniadol.

Gellir cynnal gwerthuso ar lefel y sefydliad ac ar lefel yr adran neu'r gyfadran. Mae nifer fach o sefydliadau'n sôn am ddatblygu diwylliant ymchwil addysgol. Mae tri sefydliad wedi sefydlu canolfan i gefnogi'r gwaith hwn. Gallai ychydig o'r allbwn o'r canolfannau hyn ganolbwyntio ar agweddau o'r strategaeth i weld a ydynt yn effeithio ar ddysgu myfyrwyr. Mae datblygu diwylliant lle gellir cynnal ysgolheictod dysgu ac addysgu, a lle caiff ei gydnabod a'i wobrwyo, yn un ffordd o annog gwerthuso ac yn ffordd i gynnwys staff yn y broses hon.

Yn ddiddorol, ni soniodd yr un sefydliad am ddefnyddio naill ai gwerthuswr mewnol neu allanol. Yn anaml iawn yr amlygwyd yr effaith ar ddysgu myfyrwyr. Gall defnyddio person allanol daflu goleuni newydd ar faterion ac amlygu meysydd i'w datblygu na fyddent, o bosibl, wedi cael eu hadnabod fel arall. Un awgrym posibl yw defnyddio cydweithiwr o sefydliad cyfagos, gan ymddwyn fel 'cyfaill beirniadol'.

Ychydig iawn o sefydliadau a gysylltai neu a gyfeiriai yn ôl at y strategaeth flaenorol. Pan wnaed hyn, gellid gweld datblygiadau amlwg dros gyfnod o amser. Rhoddodd un sefydliad bennawd adran 'Llwyddiant y strategaeth hyd yn hyn', gan restru canlyniadau'r strategaeth flaenorol yn nhermau ffactorau llwyddiant. Roedd hon yn ffordd dda iawn o amlygu pa waith a wnaed, a byddai'n helpu staff eraill i weld llwyddiannau. Rhoddodd sefydliad arall hanes 'Crynodeb cynnydd o ganlyniad i'r strategaeth flaenorol' a 'gweithgareddau arwyddocaol sydd ar y gweill'.

Myfyrdodau

Mae'n amlwg bod llawer o ffyrdd arloesol ac effeithiol o ddysgu ac addysgu yn digwydd ledled addysg uwch yng Nghymru. Fodd bynnag, ar sail y ddogfennaeth yn unig, mae'n anodd cynnig unrhyw fewnwelediad i'r arloesiadau neu'r arferion effeithiol gan na ddyluniwyd y strategaethau at y diben hwn. Petai sefydliadau o'r farn y byddai hwn yn ganlyniad gwerthfawr i'r fath ymarfer, efallai y byddai sefydliadau, yn y dyfodol, yn amlygu astudiaeth achos neu ddwy o arferion effeithiol sy'n deillio o'r strategaeth dysgu ac addysgu y gellid eu rhannu ar draws sefydliadau yng Nghymru. Byddem yn croesawu trafod sut y gellid cyflawni hyn pan fydd uwch aelod o'r Academi yn ymweld â'r sefydliad yn yr hydref.

Mae myfyrio am y strategaethau'n dangos nifer o dueddiadau arwyddocaol y byddai'n werth eu harchwilio ymhellach yng Nghynhadledd Strategaethau Cymru yr Academi ar 1 Rhagfyr 2005. Mae'r tueddiadau allweddol hyn yn cynnwys:

- Rheoli Ansawdd
- Datblygu ac arloesed yn y cwricwlwm
- Cydnabyddiaeth a gwobrau
- Asesu.

Atodiad 1

Gan fod y strategaethau wedi eu cyflwyno mewn ffyrdd gwahanol, nid oedd yn hawdd cymharu materion ac amlygu arferion arloesol bob tro. Lle darparwyd cynlluniau gweithredu, roeddent yn ddefnyddiol iawn. Efallai y bydd sefydliadau am ystyried a fyddai'r set ganlynol o benawdau yn helpu wrth adolygu a chynllunio'r strategaeth dysgu ac addysgu yn y dyfodol:

- Cyd-destun a diwylliant sefydliadol
- Sut cynhyrchwyd y strategaeth
- Nodau strategol y sefydliad
- Isadeiledd ac adnoddau i ategu'r strategaeth
- Targedau allweddol
- Arloesiadau arwyddocaol a gynhyrchir fel 1 neu 2 astudiaeth achos
- Strategaeth weithredu
- Cydlynu ac integreiddio strategaethau sefydliadol eraill
- Staff a datblygiad addysgiadol
- Ysgolheictod ac ymchwil addysgol
- Cydnabyddiaeth a gwobrwyo
- Nodi, lledaenu a sefydlu arferion effeithiol
- Cysylltiadau ag asiantaethau allanol, gan gynnwys yr Academi Addysg Uwch
- Monitro yn erbyn targedau mesuradwy, gydag amserlen ar gyfer cyflwyno a pherson neu grŵp a enwir sy'n gyfrifol am sicrhau y caiff ei chyflwyno
- Gwerthuso – efallai y dyrennir cyllid neu swyddi i hyn fel rhan annatod o'r strategaeth.

Atodiad 2

Yn '*Implementing Learning and Teaching Strategies'* gan Gibbs, mae'r bennod olaf yn cynnig ychydig o gwestiynau i'w hadolygu a myfyrio yn eu cylch. Tynnwyd y cwestiynau canlynol o'r adran honno. Gobeithio y byddant o gymorth i chi wrth ddatblygu gwaith yn y dyfodol.

Nodau strategol. A yw'r sefydliad yn ceisio newid ei nodau addysgu neu'r ffordd y mae'n mynd ati i addysgu, neu a yw'n ceisio gwneud yr hyn y mae'n ei wneud eisoes yn well? A yw nodau newydd yn cael eu deall a'u rhannu'n eang? A oes diffiniad clir o beth yw ystyr ansawdd 'gwell' neu 'uwch'? A chaiff yr ymagwedd at addysgu ei llywio'n well gan ymchwil addysgol?

Strategaeth a yrrir yn ganolog neu strategaeth ddatganoledig? A oes un cyfeiriad a rennir i'r holl adrannau, amrywiaeth o nodau a blaenoriaethau ar draws y sefydliad, neu gymysgedd o nodau sefydliadol ac adrannol? A yw'r strategaeth dysgu ac addysgu yn cael ei rheoli'n ganolog, neu a yw'n ddatganoledig ac yn cael ei gyrru gan adrannau a'u nodau a'u diddordebau hwythau?

Cyfathrebu. A yw'r holl staff yn ymwybodol o ddiben y strategaeth, yn deall ei nodau ac yn eu rhannu? Sut yr ymgynghorir â staff ar faterion dysgu ac addysgu? A oes angen i'r holl staff wybod am y strategaeth, neu a yw'r strategaeth yn bennaf yn offeryn rheoli y bydd yn ofynnol i'r rheolwyr yn unig weithio â hi? Sut y cyfleuir nodau'r strategaeth?

Datblygiad proffesiynol. A gefnogir y strategaeth gan brosesau datblygiad proffesiynol digonol i'r holl staff? Beth yw'r meysydd allweddol lle mae angen datblygiad proffesiynol pellach? Beth yw cyfradd y staff sy'n manteisio ar weithgareddau datblygu? A oes grwpiau o staff sydd angen eu targedu ymhellach?

Alinio â strategaethau eraill. A oes alinio a synergedd rhwng y strategaeth dysgu ac addysgu a strategaethau sefydliadol eraill, neu a ydynt yn gweithredu'n gyfochrog ac yn annibynnol? A yw'r prosesau presennol, fel cymeradwyo ac adolygu cyrsiau, adolygiadau adrannol a phenderfyniadau personél, yn atgyfnerthu'r strategaeth, yn ei hanwybyddu neu'n ei thanseilio? A yw'r strategaeth ymchwil yn cefnogi datblygiad addysgu?

Parhad a sefydlu. A fydd y strategaeth dysgu ac addysgu yn diflannu os daw'r arian i ben, neu a yw ei gweithrediad wedi'i sefydlu yn systemau ac arferion y sefydliad erbyn hyn?

Cymhellion a gwobrau. Pam y dylai academyddion gymryd y strategaeth o ddifrif a chyfranogi ynddi? A oes cymhellion a gwobrau ar gyfer cyfranogi yn y strategaeth? A yw statws addysgu, a lefel y sylw a roddir iddo, wedi cynyddu? A yw staff yn cael cymhellion i gymryd ymagwedd fwy ysgolheigaidd at eu haddysgu?

Monitro a gwerthuso. Beth fyddai'n rhoi tystiolaeth argyhoeddiadol bod y strategaeth yn llwyddiannus? Sut mae'r rheiny sy'n rheoli'r strategaeth yn gwybod bod y gweithgareddau a wneir yn cyflawni'r amcanion strategol a bennwyd? A yw addysgu'n cael ei wella o ganlyniad i weithredu'r strategaeth? A yw dysgu myfyrwyr yn cael cefnogaeth well nawr nag yr oedd pum mlynedd yn ôl? Beth yw'r rhwystrau i gynnydd y mae angen ymdrin â nhw?

Cynllunio ar gyfer y dyfodol. Beth yw'r cam nesaf wrth ddatblygu a gweithredu'r strategaeth? Pryd fydd angen diwygio'r strategaeth? Pa ddata bydd angen ei gasglu i lywio'r broses o greu fframwaith i'r strategaeth ddiwygiedig? Beth fydd ffurf y strategaeth ddiwygiedig? A ellir cyflawni alinio gwell ag ymchwil ac ehangu cyfranogiad?

Cyfeiriadau

HEFCE (2001) *Strategies for learning and teaching in higher education: a guide to good practice*. Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr

Gibbs, G. (2003) *Implementing Learning and Teaching Strategies*. Y Brifysgol Agored

Gibbs, G., Habeshaw, T (2003) *Recognising and Rewarding Excellent Teaching*. Y Brifysgol Agored

Gibbs, G., Holmes, A. a Segal, R. (2002) *Funding Innovation and Disseminating New Teaching Practices*. Y Brifysgol Agored

Yr Academi Addysg Uwch (2005) *Managing Assessment: Student and Staff Perspectives*

Stefani, L. a Carroll, J. (2001) *A Briefing on Plagiarism*. Cyfres Asesu Ganolfan Generig LTSN